# Cynhadledd Partneriaeth Bioamrywiaeth Cymru 2015

'Rheoli Adnoddau Naturiol ac Adfer Natur yng Nghymru'
Aberystwyth 9–10 Medi 2015

## Diwrnod 1

**Cadeirydd y Sesiwn: Chris Lea, Llywodraeth Cymru**

Cyd-destun
Cyfnod cyffrous o newid yw hwn yng Nghymru, gyda Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol, a Bil yr Amgylchedd sydd yn yr arfaeth, yn dangos mai deddfwriaeth Cymru sy'n arwain y ffordd. Her: sut rydym yn adeiladau ecosystemau gwydn a chyflawni'r gwaith o reoli adnoddau naturiol? Mae'r gynhadledd yn gyfle i drafod y gwaith hwn, gyda'r Gweinidog ac amrywiaeth dda o siaradwyr wedi'u dewis o ar draws y sector – a'r drafodaeth yn cael ei hategu gan sesiynau gweithdy. Adeg i gofio yw hon ac i ystyried yr hyn mae bioamrywiaeth yn gallu ei wneud, ac ym mha ffordd y mae'n effeithio ar Gymru ac ar y byd ehangach. Mae gan fioamrywiaeth swyddogaeth allweddol i'w chwarae yn y gymdeithas, gan gynnwys y frwydr yn erbyn newid hinsawdd; cyflogaeth a chynnydd; dŵr glân a phriddoedd iach; a thwristiaeth ac iechyd. Bydd plant yn parhau i ddilyn arferion amgylcheddol da os ydynt yn cael eu dysgu amdanynt yn gynnar yn eu bywydau. Dyma adeg i fod yn arloesol, gan adeiladu ar yr hyn sydd wedi cael ei gyflawni hyd yn hyn, trwy ddefnyddio modelau creadigol ar gyfer cyllid a chyflawni gwaith, megis Taliadau am Wasanaethau Ecosystem. Caiff datblygiadau megis ailgyflwyno'r bele, a'r defnydd ac argaeledd llai o blaladdwyr yn y dyfodol oherwydd cynnydd yn y defnydd o fioblaladdwyr, oblygiadau ar gyfer ein bioamrywiaeth a'n ecosystemau – ac mae'n rhaid inni ymgysylltu â'r datblygiadau hyn a chanolbwyntio arnynt. Mae Rheoliad Rhywogaethau Estron Goresgynnol yr UE yn gosod her ynglŷn â pha rywogaethau y dylid eu croesawu a pha rai y dylid cael gwared arnynt. Mae'n rhaid inni ganolbwyntio ar adfer natur a chydnabod llwyddiant – er enghraifft, y Prosiect Gweilch – ac ennill diddordeb y cyhoedd. Bydd heriau ariannol wrth gyflawni'r gwaith hwn, ac fe  fydd ennill diddordeb y cyhoedd, y sector preifat a'r sector gwirfoddol yn allweddol – yn enwedig y sector preifat, lle mae angen gwell ymgysylltiad er mwyn gwireddu ein huchelgais.

### Adnoddau Naturiol Cymru: Gwydnwch Ecosystemau a Bioamrywiaeth – Yr Athro Jack Cosby, Y Ganolfan Ecoleg a Hydroleg

Mae ecosystemau'n systemau cymhleth. Mae bioamrywiaeth yn cynnal ein hecosystemau. Mwyaf bioamrywiaeth sydd gennym, mwyaf gwydn y bydd ein hecosystemau. Mae gwydnwch yn un o'r llawer o agweddau ar gysyniadau o sefydlogrwydd ym maes ecoleg. Dangosodd un astudiaeth fod gwydnwch yn fesur o sefydlogrwydd cyffredinol y system (mae cyfanswm o chwe mesur). Yng nghyd-destun adnoddau naturiol, mae'n hanfodol bod ecosystemau'n gallu adfer eu swyddogaeth er mwyn

i'r gymdeithas dderbyn y manteision pan fydd ecosystemau'n agored i bwysau hir dymor - er enghraifft, cynhesu byd-eang a phwysau byr dymor megis haint a chlefydau. Gellir darparu gwasanaethau ecosystem ar gyfraddau cyflym, ond trwy erydu'r cyfalaf naturiol gwaelodol - hynny yw, nid ydym yn eu defnyddio mewn ffordd gynaliadwy. Mae pobl ac adnoddau naturiol yn ymgysylltiedig iawn. Mae rhaglen fonitro a gwerthuso Glastir yn ceisio dangos y cymhlethdod a'r gyd-ddibyniaeth hon. Gall rhaglen fonitro a gwerthuso Glastir gynorthwyo yn y gwaith mesur mewn pedwar maes allweddol: cyflwr, ehangder, amrywiaeth, a chysylltedd. Heriau ar gyfer y dyfodol: mae mesurau gwydnwch yn faes dadleuol, a gall cysylltedd fod yn annymunol os bydd clefyd yn torri allan, a bydd y gwaith o osod targedau ecosystem yn heriol. Mae gweithredoedd ar gyfer gwella ein hecosystemau a monitro'r broses o fabwysiadu technolegau newydd yn feysydd a fydd yn dod â manteision i'n hecosystemau ni.

**Dolen i'r cyflwyniad**

## Y Cynllun "Gwarchod y Parc" – gweithio gyda ffermwyr a thirfeddianwyr i wneud y gorau o fioamrywiaeth ar eu tir – Geraint Jones, Awdurdod Parc Cenedlaethol Arfordir Penfro

Roedd y cyflwyniad yn tynnu sylw at fentrau pori ym Mharc Cenedlaethol Arfordir Penfro. Dyma unig barc cenedlaethol arfordirol y DU, un sy'n wahanol i barciau cenedlaethol eraill trwy gynnwys tiroedd isel yn bennaf, ac mae'n gyrru cydberthynas gref rhwng yr Awdurdod Parc Cenedlaethol a'r gymuned ffermio. Mae tua un rhan o dair o arwyneb y parc yn cynnwys trigfannau hanner naturiol (sydd yn aml yn dameidiog), ac mae'r gwaith o'u rheoli'n gallu cael ei ddylanwadu gan yr Awdurdod Parc. Dros yr 16 mlynedd diwethaf, mae Awdurdod Parc Cenedlaethol Arfordir Penfro wedi datblygu cyfres o gynlluniau i gynorthwyo ffermwyr a thirfeddianwyr i fanteisio i'r eithaf ar y fioamrywiaeth sydd ar eu tir. Dwy brif elfen y dull yw symlrwydd a hyblygrwydd, a hirhoedledd. Mae'r Cynllun Gweithredu Bioamrywiaeth Lleol yn gosod cyd-destun y gwaith. Mae cynyddu cysylltedd wedi bod yn flaenoriaeth – er enghraifft, targedu cysylltedd trigfannau britheg y gors. Mae prosiectau eraill yn cynnwys gwaith ynglŷn â mursen y de gyda thirfeddianwyr ym Mynyddoedd y Preseli, a'r gwaith ar Safleoedd o Ddiddordeb Gwyddonol Arbennig gyda Chyfoeth Naturiol Cymru. Rhoddir cymorth ymarferol i ffermwyr yn y gwaith o reoli llystyfiant, gan gynnwys clirio mieri, cleisio rhedyn, a llosgi eithin – a chreu toriadau tân. Er enghraifft, rhoddodd Grŵp Tân Gwyllt Sir Benfro gymorth ymarferol i ffermwyr a thirfeddianwyr i losgi llystyfiant mewn ffordd ddiogel, ac yn unol â Rheoliadau Llosgi Grug a Glaswellt (Cymru) 2008. Mae'r nifer o achosion o dân gwyllt yn Sir Benfro wedi gostwng o 33% ers i'r grŵp gael ei greu.

**Dolen i'r cyflwyniad**

## Ymagwedd CNC tuag at sefydlu Rheolaeth Adnoddau Naturiol – o ddeddfwriaeth hyd at ddarpariaeth ymarferol – Dr Sarah Williams, Cyfoeth Naturiol Cymru

Rheoli adnoddau naturiol – wedi'i gyflawni trwy reolaeth addasol ac egwyddorion y dull ecosystem o weithredu – dyma fwriad Cyfoeth Naturiol Cymru fel y'i hamlinellir ym Mil yr Amgylchedd. Ond bydd Llywodraeth Cymru a chyrff amgylcheddol anllywodraethol yn chwarae rhan bwysig wrth ei gyflawni. Meddwl ar gyfer yr hir dymor: ystyried manteision ecosystemau a gwydnwch ecosystemau. Bydd Datganiad Ardal yn cael ei gyhoeddi yn ystod 2017-2018 a fydd yn adlewyrchu anghenion a blaenoriaethau lleol. Bydd polisïau adnoddau naturiol cenedlaethol yn troi targedau cenedlaethol yn weithgarwch lleol. Bydd yr adroddiad ar gyflwr adnoddau naturiol cenedlaethol yn troi data cenedlaethol yn strategaeth genedlaethol a fydd angen perchnogaeth gan bartneriaethau sy'n cydweithio'n agos. Fe'i cyhoeddir yn nhymor yr hydref 2016. Bydd yr adroddiad ar gyflwr adnoddau naturiol cenedlaethol yn datblygu dros amser er mwyn cynnwys elfennau cymdeithasol ac economaidd. Bydd bylchau ar y dechrau.

Dewiswyd y treialon ardal i gynrychioli'r gwahanol agweddau a heriau – ffermio yn achos y Dyfi. Seilir treialau'r Rhondda ar y gymuned, ac mae'r Tawe yn amgylchedd cymysg sydd ag elfennau o ffermio a diwylliant. Bydd prosesau ailadroddol, casglu tystiolaeth, ac ymgysylltu yn bwysig. Gellir defnyddio rhaglenni peilot ar gyfer Cymru gyfan. Pwerau arbrofol (pwerau i atal gofynion statudol ac i Gyfoeth Naturiol Cymru gynnal cynlluniau arbrofol). Bydd Cyfoeth Naturiol Cymru yn ystyried cynnwys y rhain ym Mil yr Amgylchedd, ond byddant yn cael eu defnyddio dim ond o dan egwyddorion rheolaeth gynaliadwy a'r meysydd o dan reolaeth Cyfoeth Naturiol Cymru. Byddai'n rhaid iddynt gael eu cymeradwyo gan y Gweinidog a'r panel craffu cyn iddynt gael eu defnyddio.

Dolen i'r cyflwyniad

## Dull gwasanaethau ecosystemau awdurdodau lleol – Geoff Hobbs, Cyngor Bwrdeistref Sirol Pen-y-bont ar Ogwr

Mae cynllun Gweithredu Bioamrywiaeth Lleol Pen-y-bont ar Ogwr yn seiliedig ar fapio ecosystemau ac asesu natur tirlun. Bydd gweithio gyda phartneriaid a defnyddio cyllid yn allweddol er mwyn gweithredu'r Cynllun Gweithredu Bioamrywiaeth Lleol. Bydd angen cysylltu â byrddau cynllunio a byrddau gwasanaethau cyhoeddus y dyfodol sydd wedi'u halinio â gweithredoedd craidd yr awdurdod lleol. Mae gweithredu dros gornchwiglod a'r fadfall ddŵr gribog yn enghreifftiau o brosiectau a allai gael eu cyflawni trwy ddefnyddio'r dull newydd. Mae'r dystiolaeth a geir yn y Cynllun Gweithredu Bioamrywiaeth Lleol, wedi'i ddiweddaru, a'r adroddiad technegol cysylltiedig, wedi cael eu defnyddio gan sefydliadau partner wrth ddatblygu ceisiadau am gyllid.

**Dolen i'r cyflwyniad**

### Mae’n amser siarad yn blaen – Rachel Sharp, Ymddiriedolaethau Natur Cymru

Mae'n rhaid inni gefnogi Bil yr Amgylchedd.  Mae gan linellau atebolrwydd a thargedau'r potensial i wella'r Bil. Rhaid inni fod yn uchel ein lleisiau am yr amgylchedd yn y cyfnod cyn etholiadau'r Cynulliad. Mae'r gwaith o adfer mawndiroedd yng Nghymru a'r broses o gysylltu â natur trwy ofal iechyd ataliol yn enghreifftiau o weithgareddau cyflawnadwy. Mae'n rhaid inni herio ein gilydd, bod yn fwy dewr, a rhoi pwysau allanol ar waith trwy ymgysylltu â'r cyhoedd yn gyffredinol a'r llywodraeth ehangach.

**Sgwrs yn unig – nid oes cyflwyniad**

# Trafodaeth banel a thrafodaeth llawr agored, Diwrnod 1

Panel:
Chris Lea (CL) Dirprwy Gyfarwyddwr Is-adran y Tir, Natur a Choedwigaeth, Llywodraeth Cymru (Cadeirydd)

Yr Athro Jack Cosby (JC) Canolfan Ecoleg a Hydroleg

Geraint Jones (GJ) Awdurdod Parc Cenedlaethol Arfordir Penfro

Dr Sarah Williams (SW) Cyfoeth Naturiol Cymru

Dr Geoff Hobbs (JH) Cyngor Bwrdeistref Sirol Pen-y-bont ar Ogwr

Rachel Sharp (RS) Prif Weithredwr, Ymddiriedolaethau Natur Cymru

Becky Davies (BD) Arweinydd Prosiect Cyfoeth Naturiol Cymru, Rhondda

Cwestiwn 1 (Roy Tapping, Cofnod). Gellir defnyddio targedau i sbarduno newidiadau. Pam nad oes yna unrhyw dargedau yn y Bil Amgylchedd?

RS: Cytuno, ond weithiau rydyn ni’n canolbwyntio’n ormodol ar dargedau, ffordd o fynd ati yw targed, nid diben ynddo’i hun. Mae angen i ni ganolbwyntio ar ganlyniadau. Cafwyd awgrym y dylid pennu cerrig milltir 5 mlynedd , ond dyw’r rhain ddim yn boblogaidd ymysg gwleidyddion.

SW: Mae yna dargedau niferus yn neddfwriaeth yr Undeb Ewropeaidd ac ni fyddan nhw’n newid, e.e. ar gyfer y Gyfarwyddeb Cynefinoedd, Safleoedd o Ddiddordeb Gwyddonol Arbennig ac ati. Mae yna duedd i ganolbwyntio ar dargedau, ac nid ar ecosystemau ehangach. Mae dangosyddion yn bwysig, ond rydyn ni angen dangosyddion hollgynhwysol.

CL: Mae angen cydbwysedd gyda thargedau’r Undebau Ewropeaidd

Cwestiwn 2 (Patrick Green, Cyfoeth Naturiol Cymru): Pam ydyn ni mor wael am gael gafael ar arian ar gyfer natur?

RS: Mae angen i ni ofyn! Ond dydyn ni ddim yn defnyddio'r iaith briodol, ac mae angen arbenigedd newydd arnom i'n helpu gyda hyn. Rydyn ni'n arbed arian, ond dydyn ni ddim yn creu incwm. Mae cyllid traddodiadol yn prinhau, ac mae angen i ni fod yn fwy creadigol. Hefyd, mae angen ysgogi'r farchnad i weithio er budd natur. Mae angen arbenigedd newydd i'n helpu gyda hyn.

BD: Yn y Rhondda, mae meddygon bellach yn cyfeirio pobl hŷn bellach i dreulio amser yn y byd naturiol fel dewis amgen i driniaeth gonfensiynol. Mae'r Cyngor Chwaraeon a'r awdurdod iechyd lleol yn cydnabod hefyd bod gan natur werth therapiwtig. Mae gan y Rhondda adnodd mynediad agored gwych.

G?: Mae hwn yn waddol o'r gorffennol, pan oedd diddordeb mewn natur yn cael ei ystyried yn ecsentrig. Mae angen i ni ddysgu ymgysylltu â phobl heblaw ni'n hunain.

Cwestiwn 3 (Steve Bolchover, Gwirfoddolwr, Partneriaeth Bioamrywiaeth Abertawe a Chastell-nedd Port Talbot): Mae angen i ni ymgysylltu â phobl ar lefel briodol. Pam mae CNC wedi penderfynu trefnu ei hun ar sail basnau afonydd, sydd wedi'u creu ar hap ac sydd ddim yn cyd-fynd â'r ffiniau y mae pobl yn eu defnyddio?

SW: Mae ein tystiolaeth yn seiliedig ar ansawdd afonydd, felly mae dull sy'n seiliedig ar ddalgylch afonydd yn briodol. Bydd yn rhaid i CNC ymgysylltu ag eraill ar raddfa briodol. Bydd yn rhaid defnyddio tystiolaeth mewn ffordd hyblyg, ac ni fydd yn cael ei chyflwyno ar sail dalgylch o reidrwydd.

Ruth Jenkins (CNC o'r gynulleidfa): Does yr un penderfyniad wedi'i wneud ar hyn. Mae'r broses ar gyfer datganiadau ardal yn hyblyg. Mae hwn yn ddull newydd a dyw CNC ddim yn honni ei fod yn gwybod yr holl atebion. Mae angen graddfa ddynol arnom, ac fe fyddwn ni'n gweithio gyda gwybodaeth leol.

CL: Mae yna ddiffygion yn ein harbenigedd o hyd, yn enwedig yn y maes astudio pridd. Mae angen ymwneud â'r byd academaidd.

O'r gynulleidfa: Dydyn ni ddim wedi gweld toriadau Llywodraeth Leol fel hyn o'r blaen. Mae angen i ni weithio mewn fframwaith gwleidyddol newydd.

GH: Mae basnau afonydd yn gwneud synnwyr ar lefel ecosystemau.

Cwestiwn 4 (Mike Webb, RSPB Cymru): Mae strwythur Bil yr Amgylchedd yn goeth, ond does dim tystiolaeth ynglŷn â'r ffordd y bydd yn effeithio ar filiau eraill e.e. cynllunio a systemau caniatâd eraill e.e. cynllunio, coedwigaeth ac amaethyddiaeth. Mae angen datganiad clir ar 'berthnasedd'. Pa mor effeithiol fydd y bil? Yr unig fesur o lwyddiant fydd y ffordd y bydd Cymru'n ystyried gweithgareddau anghynaladwy fel glo brig, ffracio a ffordd liniaru'r M4.

SW: Mae'n bwysig iawn bod Bil yr Amgylchedd yn llywio'r broses gynllunio. Mae angen sicrhau ein bod yn ymgynghori â 'Sonar' yn y broses gynllunio. Rydyn ni angen datblygu, ond yn y mannau cywir.

BD: Ein rhanddeiliaid craidd sef yr awdurdodau lleol. Dylai datganiadau ardal ddylanwadu ar gynlluniau lleol.

RS: Ail beth yw gwarchod natur bob amser yn yr angen i gael cydbwysedd. Mae angen cynllun adfer natur arnom fel mater o egwyddor.

Adam Rowe Canolfan Cofnodi Bioamrywiaeth De Ddwyrain Cymru (SEWBREC): Mae angen i ni wneud y defnydd gorau o dystiolaeth sydd eisoes yn bodoli. Mae yna lawer o wybodaeth ar gael ond dyw hi ddim yn cael ei defnyddio yn y ffordd gywir. Mae angen i ni allu rheoli data. Mae'n rhaid i 'Sonar' ddefnyddio'r wybodaeth orau. Mae'n rhaid sicrhau bod yna adnoddau ar gael i reoli gwybodaeth.

CL: Bydd yna fwrdd tystiolaeth newydd ar gyfer rheoli adnoddau naturiol. Mae angen i ni ddefnyddio data ac ymuno ag eraill, gan ddefnyddio dulliau newydd e.e. gwyddoniaeth dinasyddion, dronau ac ati.

RS: Mae angen arian ar gyfer hyn. Mae angen cynnwys Canolfannau Cofnodion Lleol yn y broses.

Deb Hill (ecolegydd, Dinas a Sir Abertawe): Wrth groesawu'r Bil Amgylchedd, sut mae Datganiadau Ardal yn cyd-fynd â hynny? Pwy sy'n atebol? Pwy sy'n penderfynu ar lywodraethu?

Russell De'ath (o'r gynulleidfa): Dyw'r Bil Amgylchedd ddim yn rhagnodol. Mae'n dibynnu ar y mater dan sylw. Mae angen hyblygrwydd yn genedlaethol, ond mae angen dulliau a graddfeydd gwahanol ar gyfer gwahanol faterion. Dylid sicrhau bod datganiadau ardal yn gynlluniau gweithredol lleol.

CL: Mae'n bwysig cynnwys y sector preifat hefyd.



***Trafodaeth banel Diwrnod 1***

## Bocs sebon: Gweithredu Cymunedol dros Wiwerod Coch yng nghanolbarth Cymru. Becky Hulme, Partneriaeth Gwiwerod Coch Canolbarth Cymru

Mae 3.5 miliwn o wiwerod llwyd bellach yn y DU. Maent yn achub y blaen ar wiwerod coch yn y ras am fwyd, ac maent yn cludo clefyd (firws brych) sy'n lladd gwiwerod coch. Poblogaethau gwiwerod coch ar Ynys Môn ac yng ngogledd-ddwyrain Cymru a chanolbarth Cymru.

Mae Prosiect Gwiwerod Coch Canolbarth Cymru yn defnyddio dull Gwarchodfa a Chylchfa Ragod.

Hyd yn hyn, mae'r prosiect wedi defnyddio 80 o wirfoddolwyr i gynorthwyo gyda'r gwahanol weithgareddau:

- trapio gwiwerod llwyd
- adrodd ar wiwerod llwyd a welir (cyfleuster rhyngrwyd)
- monitro trapiau camera

**Dolen i'r cyflwyniad**

## Bocs sebon: Dylai dulliau rheoli glaswelltiroedd ddefnyddio sboncynnod y dail a sboncynnod planhigion fel ffordd o fesur newid, Mike Wilson, Amgueddfa Genedlaethol Cymru

Y rheswm dros ddefnyddio sboncynnod y dail a sboncynnod planhigion yn ffordd o fesur newid yw bod eu natur yn benodol i'w trigfan – sy'n eu gwneud yn dacsonomyddion da. Mae 400 o rywogaethau wedi cael eu nodi yn y DU, ac mae tua 250 o rywogaethau sy'n gysylltiedig â glaswelltiroedd/corsydd/ffeniau. Yn aml, nhw yw'r pryfed mwyaf lluosog mewn glaswelltiroedd, sy'n gwneud samplu ansoddol gyda sugnydd yn dasg hawdd. Mantais arall yw eu bod yn weddol sefydlog o ran tacsonomeg, ac mae llawer o ddeunydd darllen ar effeithiau cyfundrefnau rheoli.

Llawlyfrau: er enghraifft, The Leafhoppers and Planthoppers of Germany; The Planthoppers and leafhoppers of Britain and Ireland (sy'n dod â thacsonomi a gwybodaeth werthfawr ar y tacson at ei gilydd).

**Dolen i'r cyflwyniad**

## Rhaglen Natura 2000 LIFE – sicrhau dyfodol i safleoedd Natura 2000 yng Nghymru, Kathryn Hewitt, Cyfoeth Naturiol Cymru

Mae Natura 2000, rhwydwaith o safleoedd yng Nghymru, yn cynnwys 92 Ardal Cadwraeth Arbennig ac 20 Ardal Gwarchod Arbennig, sy'n rhoi lloches i 54 trigfan Atodiad 1 a 28 rhywogaeth Atodiad II – yn ogystal â 41 aderyn Ardal Gwarchod Arbennig. Mae Rhaglen LIFE N2K yn rhaglen weithredu strategol ar gyfer rheoli ac adfer pob Ardal Cadwraeth Arbennig a phob Ardal Gwarchod Arbennig

yng Nghymru – yn ogystal â'u trigfannau a'u rhywogaethau – yn ystod 2015-2020. Y pynciau llosg a nodwyd gan y rhaglen yw:

- Pori a ffermio da byw
- Rhywogaethau goresgynnol, clefyd a phathogenau
- Llygredd aer
- Mynediad a rheoli hamdden
- Newidiadau i gyflyrau hydrolig a achosir gan ddynion
- Dryllio trigfannau
- Llygredd dŵr gwasgaredig
- Rheoli coedwigoedd
- Pysgodfeydd y môr
- Newid hinsawdd
- Rheoli llifogydd ac erydiad arfordirol
- Ysbwriel y môr

Elfennau o'r rhaglen:

- Cynlluniau Gwella sydd â Blaenoriaeth – cynlluniau gweithredu safleoedd
- Cronfa Ddata Gweithgarwch Cyfoeth Naturiol Cymru
- Cynlluniau Gweithredu Thematig sy'n mynd i'r afael â'r prif broblemau/risgiau (gweler uchod)
- Cynlluniau Gweithredu Trawsbynciol
- Fframwaith Gweithredu sydd â Blaenoriaeth

Amcangyfrifwyd cyfanswm cost o tua £144 miliwn (tua £1.3 miliwn ar gyfer pob safle) ar gyfer cyflawni/cyflenwi'r gweithredoedd a nodwyd ar draws pob safle N2K.

Cafodd gweithredoedd N2K eu blaenoriaethu trwy ddulliau sy'n gallu cael eu defnyddio ar raddfeydd gwahanol a chan ddefnyddwyr gwahanol. Mae'r dull cyntaf yn fatrics blaenoriaethu ar gyfer safleoedd er mwyn blaenoriaethu problemau/risgiau yn erbyn priodweddau. Mae'r ail ddull yn ddull o ddadansoddi ar sail nifer o feini prawf ar gyfer anghenion cadwraeth a chymhellion, sy’n nodi pa briodweddau ac ecosystemau sydd â'r anghenion cadwraeth mwyaf. Yn ôl y broses hon, yr ecosystemau canlynol yw'r rhai â'r anghenion mwyaf:

- Mawndiroedd – iseldiroedd ac ucheldiroedd
- Twyni tywod

- Afonydd
- Coedwigoedd
- Lagwnau a'r graean bras llysieuog cysylltiedig
- Aberoedd a morfeydd heli

Mae’r rhaglen yn tynnu sylw at rai negeseuon mawr:

Mae nifer uchel o weithredoedd ymchwilio'n nodi bod llawer i'w ddysgu o hyd am gyflwr priodwedd N2K, ac effaith gweithredoedd ar y safleoedd – yn enwedig y diffyg data ar gyfer trigfannau'r môr a phriodweddau rhywogaethau.

**Dolen i'r cyflwyniad**




***Cyflwyniad LIFE Natura 2000***

## Prosiect Adfer Ucheldir y Berwyn, Migneint, Maesyfed a'r Mynyddoedd Du – adfer rhywogaethau dros ardal eang o gefn gwlad a darpariaeth gwasanaeth ecosystemol ehangach – Will Duff Gordon, GCFfBG

Cronfa Natur. Wedi’i chreu gan Gymdeithas Tir a Busnes Cefn Gwlad, ar y cyd ag Ymddiriedolaeth Anifeiliaid Hela a Bywyd Gwyllt a’r Grŵp Cynghori ar Ffermio a Bywyd Gwyllt

Nid yw hwn yn sefydliad penodol, ond mae 60,000 o erwau’n cael eu cynrychioli gan dirfeddianwyr a ffermwyr

PROBLEM: Gostyngiadau serth yn niferoedd rhywogaethau adar, er enghraifft, y rugiar goch, ac mae ucheldiroedd Cymru yn dirywio'n gyflymach na Lloegr a'r Alban.

AMCAN: Adfer niferoedd rhywogaethau ar raddfa tirlun: amddiffyn mawn, gweithiau atal rhag erydiad dŵr, a rheoli ysglyfaethwyr

GWAITH PROSIECT Swm o £241,000 wedi'i rannu rhwng 9 prosiect: manteisio i'r eithaf ar yr effaith catalydd, setiau gwahanol o heriau a thrafodaethau i ffurfio polisïau'r dyfodol, rhannu sgiliau rhwng prosiectau, a chysylltu meysydd

Wardeniaid Bywyd Gwyllt sy'n gyfrifol am reoli trigfannau'r ucheldiroedd yn weithgar:

- Rheoli grug, rhedyn ac eithin
- Addysg a hyfforddiant ar gyfer pobl sy'n berchen ar ucheldiroedd a phobl sy'n eu defnyddio
- Adfer chwaraeon yn yr ucheldiroedd

Buddsoddiad terfynol dros saith mis = tua £500,000 – Glastir Uwch (gweithiau cyfalaf a phori targededig) a Chronfa Natur a Buddsoddiad Preifat

Nifer y bobl a fydd yn cael eu cyflogi = 14 swydd newydd (dau o dan hyfforddiant)

Cyfanswm y bobl sy'n mynychu digwyddiadau cymunedol = 300

Mae fermin yn broblem allweddol yn ucheldiroedd Cymru - gwaradwydd ar 2,230 o frain a 256 o lwynogod

**Dolen i'r cyflwyniad**

## Diwrnod 2 10 Medi

**Cadeirydd y Sesiwn: Madeleine Havard, Aelod Bwrdd Cyfoeth Naturiol Cymru**

### Gwyddoniaeth Dinasyddion: Araith y prif siaradwr – Swyddogaeth a photensial gwyddoniaeth dinasyddion, Dr John Tweddle, Amgueddfa Hanes Naturiol Llundain

Mae gwyddoniaeth dinasyddion yn offeryn gwych ar gyfer cysylltu pobl â natur. Mae'n gallu mynd i'r afael â'r 'cwestiynau mawr' trwy eu trafod ar lwyfan lleol. Mae enghreifftiau'n cynnwys olrhain lledaeniad rhywogaethau ymledol a mesur a mapio llygredd (aer, sain a dŵr). Mae enghreifftiau o'r Amgueddfa Hanes Naturiol yn cynnwys y prosiect tegeiriannau 'Orchid Observers'. Mae gwyddoniaeth dinasyddion yn cynrychioli offeryn ychwanegol yn yr arfdy. Ni fydd yn disodli offerynnau cyfredol, ac mae'n bwysig cofio nad dyma'r dechneg fwyaf priodol i'w defnyddio bob amser. Nid ydyw am ddim (mae angen ei gaffael) a'r hyn rydych yn ei gael yn ôl yn gymharol â'r hyn rydych yn ei fuddsoddi. Mae'n cyflwyno gwyddoniaeth i gynulleidfa ehangach, ac mae'n

rhagflaenydd newid ymddygiad. Mae gwyddoniaeth dinasyddion yn cyflwyno manteision anuniongyrchol, ac mae'n un cam i ffwrdd o weithgareddau sydd o fudd i rywogaethau a chynefinoedd. Er enghraifft, mae rhwydwaith Partneriaeth Riverfly wedi cysylltu pysgotwyr ag Asiantaeth yr Amgylchedd, wedi gwella cyfathrebu a chapasiti rhwng gwirfoddolwyr (dinasyddion gwyddonol), ac ar yr un pryd wedi cyfrannu gwybodaeth werthfawr y gellir ei defnyddio er budd natur.

Crynhoi syniadau ar wyddoniaeth dinasyddion yn y DU

• Mae wedi cael ei chydnabod yn fwyfwy fel cyfle ar gyfer deialog ystyrlon, yn ogystal ag ymgysylltiad a chydweithrediad rhwng maes gwyddoniaeth, y gymdeithas a pholisïau

• Mae'n gysyniad hyblyg y gellir ei ddefnyddio ar gyfer llawer o destunau a sefyllfaoedd

• Dangoswyd ei bod yn rhan ddefnyddiol o bos bioamrywiaeth a chadwraeth

• Ond ni fydd yn disodli gweithgareddau cyfredol

• Nid oes sicrwydd y bydd yn llwyddo chwaith – mae angen cyllid a dyluniad pwrpasol

• Fel sydd gydag agweddau eraill ar wyddoniaeth, mae ganddi gyfyngiadau a thueddiadau

• Gall cyfuniad o gymryd rhan mewn ffordd ymarferol a rhyngweithio ag 'arbenigwyr' gael effaith gadarnhaol ar agweddau tuag at wyddoniaeth a natur – sy'n hanfodol ar gyfer bioamrywiaeth yn y dyfodol

Y camau/heriau nesaf ar gyfer Gwyddoniaeth Dinasyddion

1. Gwerthuso a deall yr effeithiau a'r canlyniadau cymdeithasol ac addysgol

2. Cydlynu dulliau gweithredu ar gyfer yr heriau mawr – ym mha le y gall Gwyddoniaeth Dinasyddion wneud y cyfraniad gorau?

3. Cefnogi'r broses o gynnwys demograffeg amrywiol

[Dolen i'r cyflwyniad]




***John Tweddle Prif Siaradwr ar wyddoniaeth dinasyddion***

## Diweddariad ar Brosiect COBWEB – Dr Jamie Williams, Systemau'r Amgylchedd

Mae COBWEB yn brosiect Ewropeaidd cydweithredol sydd â'r nod o roi grym i ddinasyddion, er mwyn iddynt gasglu a chyfrannu data i'w defnyddio wrth lunio polisïau a llywodraethu. Mae consortiwm COBWEB yn cael ei arwain gan Brifysgol Caeredin, ac yn cynnwys 13 partner o bum gwlad Ewropeaidd: y DU, yr Almaen, Gwlad Groeg, yr Iseldiroedd, ac Iwerddon. Dechreuodd y prosiect ar 1 Tachwedd 2012. Bydd yn para am bedair blynedd ac mae'n cael ei ariannu o dan Raglen Fframwaith y Comisiwn Ewropeaidd. Yng Nghymru, mae consortiwm o sefydliadau'n cymryd rhan, gan gynnwys Systemau'r Amgylchedd, Prifysgol Aberystwyth, Llywodraeth Cymru, ac EcoDyfi (ceir rhestr lawn o'r partneriaid yn y cyflwyniad).

Tri maes pwnc:

1. Dilysu'r broses o arsyllu ar y ddaear

2. Monitro biolegol

3. Llifogydd

Mae nifer o Warchodfeydd Biosffer yn Ewrop, ac mae Biosffer Dyfi yn un ohonynt. Mae COBWEB yn cynnwys saith prosiect 'cyd-ddylunio' sy'n cymryd rhan yng Ngwarchodfa Biosffer Dyfi. Mae'r

prosiectau'n cyfuno trysorfa o arbenigedd lleol mewn prosiectau amgylcheddol, tîm bywiog o wirfoddolwyr a chymunedau, ac arbenigedd ymchwilwyr a datblygwyr COBWEB. Trwy weithio gyda'n gilydd, mae'r gweithgaredd cyd-ddylunio hwn yn rhedeg prosiectau diffwdan sy'n cyfrannu at y datblygiad, casglu data peilot, a'r diddordeb yn allbwn prosiectau COBWEB.

Dolen i'r cyflwyniad

## Sesiwn ryngweithiol: - Fframio Natur:- Offerynnau ar gyfer cyfathrebu ynglŷn â natur – Ralph Underhill, Canolfan Ymchwil er Budd y Cyhoedd

Yn y sesiwn ryngweithiol hon, cyflwynodd Ralph Underhill, o’r Ganolfan Ymchwil er Budd y Cyhoedd, y cysyniad o fframio, gan ddangos ei bwysigrwydd wrth ddylanwadu ar y penderfyniadau rydym yn eu gwneud ynglŷn â bywyd gwyllt. "Mae 'fframwaith’ yn amlinellu cyd-destun yr hyn y mae sefyllfa neu ddeialog yn ei drafod. Yn y bôn, mae'n nodi'r deunydd i'w drafod, ac ar yr un pryd yn rhoi safbwynt er mwyn ei ystyried.” Darnton & Kirk, 2010

Ac yn yr un modd:

"Po fwyaf y mae'r fframwaith yn cael ei ddefnyddio, cryfaf y mae'n mynd. Pan fydd yn ddigon cryf, y fframwaith a fydd yn diffinio eich 'synnwyr cyffredin'." George Lakoff 2011.

Yn gyffredinol: Os ydych yn newid y fframwaith, rydych yn newid yr ymateb; pan fyddwn yn diffinio problemau, rydym yn awgrymu atebion.

Ailfframio natur – siaradwch am ba mor aruthrol yw natur, gan ddefnyddio lluniau i ddangos hyn. Cysyniadau cyffredin: nid yw ffeithiau'n ddigonol; mae gweithgarwch cyfunol yn bwysig; esboniwch y broblem; rhowch gyfleoedd i bobl gymryd rhan ac i fod yn greadigol; mae pobl yn rhan o natur; peidiwch â rhoi pris ar natur; tynnwch sylw at y broblem, ond sicrhau nad yw'r neges yn rhy fygythiol; dangoswch sut y mae gweithredoedd bach yn cyd-fynd â'r cyd-destun ehangach.

Tri pheth i'w cofio:

Mae fframio’n newid y ffordd yr ydych chi'n gweld problemau ac atebion

Mae fframio'n dylanwadu ar ein cymhelliant

Nid ar gyfer y cyfryngau yn unig y mae – mae'n berthnasol i bob agwedd ar eich gwaith chi

Dolen i'r cyflwyniad



***Trafodaeth banel ar wyddoniaeth dinasyddion***

## Araith y prif siaradwr – Carl Sargeant AC, Gweinidog Adnoddau Naturiol

Yr her yw cysylltu'r gwahanol ddarnau o ddeddfwriaeth er mwyn darparu ar gyfer yr amgylchedd. Mae'r Ddyletswydd Bioamrywiaeth a Chydnerthedd Ecosystemau ym Mil yr Amgylchedd yn adeiladu ar Ddeddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol, sy'n cynnwys Amcan 'Cymru Wydn'. Bydd y Cynllun Adfer Natur yn cael ei gyhoeddi erbyn diwedd y flwyddyn ariannol, a bydd hwn yn gam mawr yn y broses o ddarparu ar gyfer natur yng Nghymru. Gan ei bod yn ddogfen fyw, fe fydd yn cael ei diweddaru wrth i bolisïau cenedlaethol esblygu. Mae'r amgylchedd yn her mae pawb yng Nghymru yn ei rhannu - sut rydym yn mynd i'r afael â hi? Rhaid inni gydnabod bod newid yn aml yn anodd. Bydd y mesurau a gynhwysir yn y Cynllun Datblygu Gwledig yn allweddol, gan anelu at atebion cyfannol, sy'n llwyddo ym mhob ffordd, ac sy'n darparu ar gyfer yr amgylchedd a'r economi. Adeiladu ar Raglen LIFE yr UE a Thaliadau ar gyfer Ecosystemau, ac edrych am gyfleoedd i deilwra'r rhaglenni hyn. Dathlu llwyddiant, er enghraifft y cynnydd wedi'i wneud gyda chynllun Gweithredu Pryfed Peillio. Bydd datganiadau ar gyfer pob ardal, fel y'i hamlinellir ym Mil yr Amgylchedd, yn cael eu datblygu ac yn llywio ein dulliau - a bydd y gwersi a ddysgwyd o dreialau ardal Cyfoeth Naturiol Cymru hefyd yn llywio ein dulliau. Rydym yn wynebu adeg heriol lle mae cyllidebau'n crebachu, ond bydd Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol a Bil yr Amgylchedd yn creu platfform er mwyn sicrhau darpariaeth. 'Ni' piau'r amgylchedd gyda'n gilydd, ac mae gennym gyfrifoldeb cyfunol i'w wella. Bydd deddfwriaeth yn gofyn inni wneud pethau'n wahanol, ac i newid y ffordd rydym yn darparu gwasanaethau - ac mae'n bosib na fydd lle i 22 awdurdod lleol weithredu yng Nghymru. Fel y gweinidog sy'n gyfrifol am y portffolio hwn, rwy'n fodlon gwrando ar gynigion newydd ynglŷn â sut rydym yn darparu ar gyfer yr amgylchedd.




***Carl Sargeant AC yn annerch y gynhadledd***

## Sesiwn cwestiwn ac ateb gyda'r Gweinidog

C. Colin Russell, Canolfan Gwybodaeth Bioamrywiaeth Gorllewin Cymru. Mae gwella'r amgylchedd yn cyflwyno manteision i'r gymdeithas sy'n gyffredinol ac yn drawsbynciol. A oes cyfle i ailgyfeirio arian o adrannau eraill Llywodraeth Cymru er mwyn ariannu gwelliannau amgylcheddol yng Nghymru?

A. Mae Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol yn cynnal yr hyn y mae'n rhaid i Lywodraeth Cymru a chyrff eraill ei gyflawni, ac mae wedi cael ei ymgorffori yn y gyfraith. Bydd Comisiynydd Datblygiad Cynaliadwy’n plismona'r gwaith hwn, a bydd Cyfarwyddwyr Cyffredinol pob adran Llywodraeth Cymru yn gwella’r broses integreiddio. Yn y gorffennol, roedd cydweithrediad rhwng adrannau'n opsiynol - mae bellach yn orfodol yn ôl y gyfraith. Bydd yn rhaid inni fabwysiadu dull 'synnwyr cyffredin' o weithredu - er enghraifft, defnyddio cyllid y Cynllun Datblygiad Gwledig er mwyn darparu ar gyfer yr ecosystem ac i roi nifer o fanteision eraill.

C. Leanne Bird (Cyngor Sir Ceredigion) a Laura Palmer (Cyngor Bwrdeistref Sirol Castell-nedd Port Talbot). Mae cynlluniau gweithredu bioamrywiaeth lleol yn rhoi'r cyswllt rhwng polisïau a gweithiau tir. Mae perygl y bydd cynlluniau gweithredu bioamrywiaeth lleol yn methu oherwydd pwysau ariannol difrifol a newidiadau i strwythurau grantiau. O ganlyniad, fe fyddant yn methu cyflawni polisïau Llywodraeth Cymru heb swyddogion awdurdodau lleol. Mae gan gynlluniau gweithredu bioamrywiaeth lleol rwydwaith sydd ar hyn o bryd yn darparu ar gyfer bioamrywiaeth a datblygiad cynaliadwy - ac mae perygl y collir y rhwydwaith hwn. Ychydig iawn yw cost cynnal y rhwydwaith, ac mae llawer o bartneriaid cynlluniau gweithredu bioamrywiaeth lleol yn rhoi eu hamser am ddim ac yn cyfrannu at amcanion Llywodraeth Cymru ar lawr gwlad.

Byddem yn croesawu presenoldeb y gweinidog yn un o gyfarfodydd cynllun gweithredu bioamrywiaeth lleol, er mwyn iddo weld drosto ei hun amrywiaeth a chwmpas eu gwaith.

A. Mae Llywodraeth Cymru yn gwerthfawrogi'r gwaith rydych yn ei wneud, ac yn cydnabod y pwysau ariannol a'r penderfyniadau anodd y bydd yn rhaid eu gwneud ar draws pob portffolio, nid yn unig y rhai sy'n darparu ar gyfer yr amgylchedd. Rydym yn hapus iawn gwrando ar gynigion ynglŷn â sut rydym yn darparu'n lleol, ac yn fwy na hapus dod i gyfarfod cynllun gweithredu bioamrywiaeth leol.

C. Sorrel Jones, Ymddiriedolaeth Bywyd Gwyllt Gwent. Mae'n amser cyffrous ar gyfer llawer o bobl yn y sector cadwraeth ynglŷn â'r ddeddfwriaeth newydd, ond gyda'r ddeddfwriaeth newydd bydd angen atebolrwydd. Cydnabyddir bod pwysau ar gyllid yn gyffredinol, ond yn ôl pob golwg mae'r economi'n bwysicach na'r amgylchedd – er enghraifft, y cynigion i addo cyllid sylweddol ar gyfer ffordd liniaru’r M4 o gwmpas Casnewydd a Chylch Cymru, os yw'r cynigion hyn yn cael eu gwireddu. Mae hyn yn dod ar adeg pan fydd diffyg arian ar gyfer rheoli safleoedd Natura 2000 Cymru.

A. Nid wyf yn gallu trafod materion cynllunio unigol yn fanwl, ond o ran egwyddorion cyffredinol, rydym yn cefnu ar sefyllfa lle mae'r economi'n bwysicach na phopeth arall. Bydd deddfwriaeth newydd Deddf Llesiant Cenedlaethau’r Dyfodol yn gofyn inni wneud pethau mewn ffordd wahanol. Yr her yw troi'r ddeddfwriaeth newydd yn weithgarwch. Fe fyddaf yn gadarn wrth fy nghydweithwyr i sicrhau bod hyn yn digwydd. Rydym hefyd yn gallu adeiladu ein heconomi gwyrdd a chodi ardoll ar gyfer gwelliannau amgylcheddol – a newid y cyfeiriad a'r weledigaeth ar gyfer yr amgylchedd o fewn Llywodraeth Cymru.

C. Louise Owen, Llywodraeth Cymru. Yn ôl pob golwg, mae adrannau Llywodraeth Cymru yn anfodlon mynd i'r afael â bioamrywiaeth. Byddai'n dda inni ddangos ein bod yn chwarae ein rhan trwy addysg a chynnwys bioamrywiaeth yn ein gweithrediadau mewnol.


A. Byddaf yn cyfarfod â'r Ysgrifennydd Parhaol i holi ynglŷn â'r safbwynt hwn, ac fel y nodwyd, byddaf yn trefnu cyfarfod â phob Cyfarwyddwr Cyffredinol yn Llywodraeth Cymru. Bydd deddfwriaeth Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol yn newid y ffordd rydym yn gweithredu, ac mae'n rhaid inni fod yn agored ac yn dryloyw yn ein gwaith, a dangos beth fydd canlyniadau methu mabwysiadu egwyddorion y ddeddfwriaeth newydd. Mae'r ddeddfwriaeth newydd yn torri tir newydd, ac wedi tynnu canmoliaeth gan Gyngor y UE – ac os ydym yn llwyddo yn hyn o beth, fe fydd yn rhoi grym i Gymru.

## Meithrin gwydnwch yng Nghymru o ganlyniad i Ddeddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) a Bil yr Amgylchedd – Emily Finney, Llywodraeth Cymru

Roedd y cyflwyniad yn cynnwys sut y rhoddwyd Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol mewn grym, a sut mae'n cysylltu â Bil yr Amgylchedd o ran gosod y fframwaith cyfreithiol i fynd i'r afael â heriau

tymor hir allweddol, megis y dirywiad mewn bioamrywiaeth a chynorthwyo Cymru i ganfod y cyfleoedd sy'n gysylltiedig â thwf gwyrdd.

Mae Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol yn ymwneud â gwella lles cymdeithasol, economaidd, amgylcheddol a diwylliannol Cymru. Mae'r Ddeddf yn nodi saith nod llesiant:




Bydd y Ddeddf yn gosod tasg i Fyrddau'r Gwasanaethau Cyhoeddus wella lles economaidd, cymdeithasol, amgylcheddol a diwylliannol eu hardal drwy:

• Asesu cyflwr llesiant

• Gosod amcanion er mwyn sicrhau'r cyfraniad gorau i'r nodau llesiant yn yr ardal

• Cyhoeddi Cynllun Llesiant – gan gymryd camau rhesymol i fodloni'r amcanion hynny

Cafodd Bil yr Amgylchedd (Cymru) ei amlinellu wedyn. Mae'r Bil yn nodi sut rydym yn mynd i Reoli Adnoddau Naturiol yn Gynaliadwy. Mae'r Bil yn cynnwys saith elfen:

• Rhan 1: Rheoli Adnoddau Naturiol yn Gynaliadwy

• Rhan 2: Newid Hinsawdd

• Rhan 3: Codi Tâl am Fagiau Siopa

• Rhan 4: Casglu a Gwaredu Gwastraff

• Rhan 5: Pysgodfeydd ar gyfer Pysgod Cregyn

• Rhan 6: Trwyddedu Morol

• Rhan 7: Amrywiol

Mae'r Bil, ymysg awgrymiadau eraill, yn cyflwyno Dyletswydd Bioamrywiaeth a Gwydnwch Ecosystemau. Mae’r ddyletswydd hon wedi'i chynllunio i newid pwyslais Adran 40 Deddf yr Amgylchedd Naturiol a Chymunedau Gwledig 2006 - ar gyfer awdurdodau cyhoeddus sy'n cyflawni swyddogaethau yng Nghymru - er mwyn i’r gofynion gydymffurfio ag egwyddorion Rheoli Adnoddau Naturiol yn Gynaliadwy. Bydd yn ofynnol i awdurdodau cyhoeddus gyhoeddi adroddiad cydymffurfio cyn diwedd 2019 a phob tair blynedd ar ôl hynny.

**Dolen i'r cyflwyniad**

## Prosiect Ecosystem Llŷn – Catrin Glyn, Prosiect Gweithredu Dull Ecosystem Llŷn (Cyngor Gwynedd)

Cyflwyniad fydd hwn yn sôn am brosiect peilot newydd a leolir ym Mhen Llŷn, sydd wedi esblygu o waith Ardal Cadwraeth Arbennig (ACA) Pen Llŷn a’r Sarnau. Mae’r prosiect wedi deillio o ‘Striking the Balance’, sef dogfen a luniwyd gan Gymdeithas Pysgotwyr Cymru lle y cynigir dull rheoli a fyddai’n gwella ein dealltwriaeth o amgylchedd y môr ac yn hyrwyddo adferiad a gwytnwch ecosystemau, heb gael effaith niweidiol ar bysgotwyr a chymunedau lleol. Mae’r dull hwn yn hyrwyddo bywyd diwylliannol ac economaidd ac yn gwarchod gweithgareddau hamdden a physgodfeydd traddodiadol. Felly, mae ACA Pen Llŷn a’r Sarnau a Chymdeithas Pysgotwyr Cymru yn cyd-arwain y prosiect, gan adlewyrchu’r ffaith y gall cadwraeth a’r diwydiant pysgota fynd law yn llaw, a lle y rhoddir cryn bwyslais ar gydreoli ac ymgynghori.

Lleolir y prosiect yn ardal Pen Llŷn. Y Gronfa Natur sy’n ariannu’r prosiect, a chaiff rhai elfennau ohono gymorth ariannol gan Seafish. Mae’r prosiect yn ystyried dulliau o reoli pysgodfeydd sy’n seiliedig ar ecosystemau, ac mae’n cysylltu â gwaith partneriaeth bresennol ACA Pen Llŷn a’r Sarnau. Mae nifer o ddarnau o waith yn rhan o’r prosiect cyffredinol:

1. Dull ecosystem
2. Cydreoli
3. Pysgota am sbwriel
4. Larymau electronig ('pingers' ar gyfer rhybuddio creaduriaid teulu’r morfil)
5. Cod Ymddygiad

Caiff y prosiect ei hwyluso gan Alison Hargrave (Swyddog ACA Pen Llŷn a’r Sarnau), sy’n cynrychioli’r bartneriaeth ACA bresennol. Camau gweithredu a nodir yng nghynllun rheoli Pen Llŷn a’r Sarnau, a hefyd yng Nghronfa Ddata Gweithrediadau CNC, yw’r uchod.

**Dolen i'r cyflwyniad**

## Prosiect rhywogaethau estron goresgynnol Afon Dyfrdwy – y canlyniadau, y gwersi a ddysgwyd, a'r camau nesaf – Adrian Lloyd Jones, Ymddiriedolaeth Natur Gogledd Cymru

Mae Prosiect Rhywogaethau Estron Goresgynnol Afon Dyfrdwy yn fenter partneriaeth ar gyfer dalgylch cyfan, a’i nod yw cydlynu’r gwaith o reoli a monitro Rhywogaethau Estron Goresgynnol (RhEG) yn nalgylch Afon Dyfrdwy er mwyn sicrhau bod dull unedig o reoli RhEG yn cael ei roi ar waith.

Mae dalgylch Afon Dyfrdwy'n cynnwys 21 llyn a 753km o afonydd, ac mae'n cynnwys safleoedd ACA, RAMSAR ac SoDdGA ac yn rhannu ffin â Lloegr. Mae'r dalgylch yn darparu dŵr yfed ar gyfer tri miliwn o bobl. Mae cyfres o rywogaethau estron goresgynnol yn y dalgylch, gan gynnwys ffromlys chwarennog, llysiau'r dial, efwr enfawr, a chranc blewog Tsieineaidd. Mae'r ffromlys chwarennog yn broblem fawr yn y dalgylch, ac mae'r prosiect wedi cael gwared â'r ffromlys chwarennog o Afon Alun bron yn gyfan gwbl, gan weithio o'r tarddiad i lawr yr afon.

Rheolir y prosiect gan grŵp llywio sy'n cynnwys naw sefydliad, ac mae wedi llunio cynllun gweithredu strategol. Mae'r cynllun wedi gosod sylfaen ac wedi nodi amcanion a chamau gweithredu allweddol, yn ogystal â blaenoriaethau. Mae'r prosiect wedi mapio maint y rhywogaethau estron goresgynnol, wedi dilyn mesurau rheoli, wedi codi ymwybyddiaeth am fioddiogelwch (ymgyrch glanhau, archwilio a sychu), wedi llunio taflenni adnabod rhywogaethau estron goresgynnol, ac wedi cynnal digwyddiadau dydd i godi ymwybyddiaeth. Mae'r prosiect yn defnyddio gwarcheidwaid afonydd gwirfoddol o'r gymuned bysgota yn bennaf, ac maent yn adrodd problemau'n ôl, yn cysylltu â thirfeddianwyr, ac yn dilyn mesurau rheoli RhEG.

Mae'r prosiect Rhywogaethau Estron Goresgynnol Dyfrdwy yn gyfrwng i wella statws ACA Aber Dyfrdwy ac i gael 'statws da' dan y Gyfarwyddeb Fframwaith Dŵr gan ddefnyddio ymagwedd gydweithredol.

C. Martyn Evans, Cyngor Sir Fynwy. Mae problem gynyddol o ffromlys chwarennog ar Afon Wysg. Sut ydych chi'n ymdrin â'r ffromlys - a yw’n cael ei ffustio neu ei chwistrellu?

A. Mae'r rhan fwyaf yn cael ei dynnu allan â llaw, ei wasgu, a'i adael i bydru i ffwrdd oddi wrth lan yr afon. Mewn rhai amgylchiadau, caiff mannau eu chwistrellu os yw'r broblem yn rhy fawr i'w datrys drwy dynnu allan â llaw, neu cânt eu torri (dan y cwgn cyntaf).

Dave Thorpe, Cyfoeth Naturiol Cymru. Mae'r dalgylch yn cynnwys tri phrif le i dynnu dŵr, felly rheoli'n gorfforol yw'r dull mwyaf priodol o sicrhau bod cyn lleied o blaladdwyr (glycosphate) â phosib yn mynd i mewn i'r afon.

[Dolen i'r cyflwyniad]

## Crynodeb i gloi – Madeleine Havard, Aelod o Fwrdd Cyfoeth Naturiol Cymru

Yr hyn sy'n allweddol yn dilyn y ddau ddiwrnod yw ei fod wedi dod â'r gymuned fioamrywiaeth at ei gilydd, ac mae'n bwysig ein bod ni i gyd yn cefnogi ymdrechion ein gilydd. Roedd y diwrnod cyntaf yn canolbwyntio ar y cysyniad o wydnwch, ac ar yr ail ddiwrnod, dilynwyd hyn gydag enghreifftiau o brosiectau rhanbarthol a lleol. Yn aml, ymddengys bod amcanion y polisi strategol a'i ddarparu'n lleol yn anaddas, ond dan y ddeddfwriaeth newydd, mae hyn yn dod at ei gilydd gan achosi dull 'cydweithredol' o weithio. Yn ystod y gynhadledd, trafodwyd pa mor bwysig yw bod yn ymwybodol o'r amgylchedd naturiol, ac yn ystod y sesiwn ryngweithiol heddiw, amlygwyd ffyrdd y gallwn gyfathrebu'n fwy effeithiol. O ran y llywodraeth, mae'r gweinidog wedi mynychu pob cynhadledd Partneriaeth Bioamrywiaeth Cymru (PBC), ac yn ystod ei anerchiad eleni, roedd y gweinidog yn onest ynglŷn â realiti'r amodau ariannol presennol, ond dangosodd ei fod yn ymroddedig ac yn gefnogol i gael canlyniadau cadarnhaol ar gyfer yr amgylchedd naturiol. Mae'r gweinidog wrthi'n siarad â'i gydweithwyr yn y cabinet i roi pwysau arnynt i gefnogi'r ddeddfwriaeth newydd, ond rhoddodd her i'r gymuned fioamrywiaeth 'wneud pethau'n wahanol'.

Mae hyn yn allweddol - mae angen i ni weithio gyda phobl eraill, cydweithredu ac arloesi. Mae'r amser bellach yn addas i 'wneud pethau'n wahanol' o ddifrif, yn hytrach na dim ond yn defnyddio rhethreg. Mae'n bwysig i ni aros yn gadarnhaol a bod yn glir ynglŷn â'r canlyniadau rydym am eu cyflawni o gwmpas Cymru gydnerth, cael ecosystemau iach, a rhoi sylw i golli bioamrywiaeth. Mae gennym etholaeth weithgar yng Nghymru i ddarparu'n lleol yn ogystal ag yn genedlaethol. Mae hyn yn amser cyffrous ac anodd, ond yn y pen draw, mae fyny i ni gyflawni.

Diolchodd Madeleine i holl gyfranwyr y gynhadledd a'r gynulleidfa, a dymunodd daith ddiogel iddynt adref.

# Crynhoi'r Gweithdai

# Gweithdy Rheoli Adnoddau Naturiol – Adborth

**Diana Reynolds, Llywodraeth Cymru**

| Pethau da… | Cyfleoedd i wella… |
|---|---|
| Mae Diana'n hwylusydd da – mae'n procio'r meddwl | Rhowch rai enghreifftiau o sut mae Llywodraeth Cymru wedi newid mewn ymateb i ofynion y dull rheoli ar lefel yr ecosystem –<br><br>• Wrth ddylunio Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015 a deddfwriaethau eraill<br>• Rhai gwelliannau mewn ymddygiad, e.e. gofyn 'Sut gallwn ni helpu?' yn hytrach na 'Na, allwn ni ddim'.<br>• Ymrwymiad i gydweithredu ac ymdrechion i roi hyn ar waith, e.e. Cymunedau'n Gyntaf, Cynllun Gweithredu Cymru ar gyfer Pryfed Peillio, Y Gronfa Natur, Grantiau'r Amgylchedd<br>• Noder: mae gennym lawer i'w ddysgu o hyd! |
| Defnyddiol iawn a diddorol | Cynnwys economeg (yn arbennig egwyddor 4a). Sut rydym ni'n rhoi gwerth ar fuddiannau (nid o reidrwydd mewn punnoedd) yn arbennig y buddiannau hynny mae arnom eu hangen ond yn rhyfedd ddigon sy'n derbyn y gwerth isaf o ran ££? (rydym yn cymryd aer, dŵr a bwyd rhad yn ganiataol).<br><br>• Gweler o bosib: http://hajoonchang.net/ neu http://sacred-economics.com/ am ragor o syniadau… |
| Roedd hwn yn weithdy defnyddiol iawn ar gyfer troi cysyniad yn rhywbeth | Efallai byddai rhai astudiaethau achos yn ddefnyddiol? |

| | |
|---|---|
| ymarferol. | • Bu gennym rai ar wefan Fframwaith yr Amgylchedd Naturiol, rwy'n credu, a chredaf y bydd y dull newydd o gyfathrebu yn ychwanegu enghreifftiau at wefan Bioamrywiaeth Cymru. |
| Roedd amlinellu'r saith egwyddor yn sbardun defnyddiol ar gyfer meddwl am sut i ychwanegu gwerth i'n gwaith, o safbwynt rheoli adnoddau naturiol. | Rhowch fwy o amser! Gall fod yn beth da iawn i ddefnyddio astudiaethau achos er mwyn egluro cysyniadau am eu bod yn sbarduno trafodaeth.<br><br>• Efallai y gallwn ddadansoddi/sgorio astudiaeth achos (yn yr un modd ag y gwnaethom gyda'n gwaith ein hunain) cyn mynd i'r afael â'r hyn a wnawn ni ein hunain? |
| Mae'n ddefnyddiol iawn trafod a rhannu syniadau a phrofiadau gyda phobl o sefydliadau eraill. | Mae'n weithdy dwys – tybed a fyddai'n haws i'r rhai sy'n bresennol gael un neu ddau gyfnod trafod ychwanegol (byrrach!). Wrth drafod, aeth pawb ar grwydr yn ormodol wrth iddynt flino.<br><br>• Yn eironig, gall crwydro oddi ar y testun gipio gwybodaeth allweddol am y testun sydd dan sylw. Pan fydd hyn yn digwydd gallwn ofyn i'n gilydd: sut mae hyn *wir* yn gysylltiedig â'r pwnc rydym i fod i'w drafod? Pam fod yn well gennym y pwnc gwahanol hwn? A allwn ail-siapio i gynnwys y ddau syniad hyn? (Gweler cyflwyniad/ymarfer Ralph yn y gynhadledd.) |
| Roedd y gweithdy'n ddiddorol ac yn ysgogol – gwnaeth i fi feddwl am fy ngwaith mewn modd gwahanol. Roedd yn well nag a feddyliais. | Grwpiau llai<br><br>• Roedd gan un o'r byrddau 11 arno a'r llall 5. Dylwn i fod wedi sylwi ar hyn ynghynt a newid y maint. |
| Mae paru a rhannu'n gweithio'n dda iawn, h.y. yn caniatáu i syniadau gael eu cyfnewid yn fanylach. | Gellid ei dargedu at gynulleidfaoedd mewn meysydd gwaith tebyg. Byddai hyn yn ein hannog i archwilio'r manylion (problemau?) sy'n bodoli. |
| Roedd Diana yn arweinydd da er mwyn rhoi safbwynt allanol am fod pawb yn rhy ynghlwm wrth eu gwaith eu hunain. | Anghofiais i symud ymlaen o sgorio fy narn o waith i weld sut gallwn wella – efallai bod angen proc i fy atgoffa i |

| | |
|---|---|
| | wneud hynny. |
| Dewch i lunio gweledigaeth ar gyfer Cymru a chadw ati. | Dewch i lunio gweledigaeth ar gyfer Cymru a chadw ati.<br><br>• Gweler amryw gyflwyniadau cynhadledd a/neu dudalen 6 o Hanfodion Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol yn: http://gov.wales/topics/people-and-communities/people/future-generations-bill/?skip=1&lang=cy |
| I ddatblygu, rhaid meddwl yn y tymor hir. Roedd yn procio'r meddwl. | A allwn ni gael gweithdai cymysg o'r math hwn yn rheolaidd ar gyfer Cyfoeth Naturiol Cymru a chyrff anllywodraethol, os gwelwch yn dda. |

# Gweithdy *Pollinator Towns* / Trefi'r Paill

**Bleddyn Lake Gweithlu Peillwyr Cymru**

**Grŵp 1**

- Ydyn ni eisiau canolbwyntio ar drefi? Ydyn ni hefyd yn canolbwyntio ar ysgolion/grwpiau ieuenctid/eglwysi ac ati?
- Sut mae busnesau'n dangos eu bod nhw'n gweithredu o blaid pryfed peillio?
- Allwn ni annog cymdogaethau i gael 'llysgennad peillio'? A lefelau gwahanol o gyrhaeddiad?
- Syniad am enw – *Buzz Towns*
- Cael sticer logo peillydd ar gyfer unigolion neu ar lefel gymunedol
- Allwn ni ddefnyddio Streetlife.com?
- Allwn ni gael baner peillydd yn debyg i faner eco-ysgolion?
- A fyddai'n haws cyfuno â chynlluniau eraill?
- Cynnwys gerddi'r Ymddiriedolaeth Genedlaethol a Chynllun Cenedlaethol y Gerddi?
- Ar gyfer ardystio – gallwn ni gael rhestr o gamau posibl, rhai'n hawdd a rhad ac eraill yn fwy cymhleth
- Gallai trefi/cymdogaethau roi tic wrth 5 peth, er enghraifft, er mwyn cael ardystiad sylfaenol, ac anfon ffotograffau o bob un, ac yna cwblhau rhagor o gamau er mwyn cael ardystiad uwch?
- Cynnwys gerddi preifat mewn trefi a phentrefi gan fod pobl yn barod i wario arian ar eu gerddi eu hunain, e.e. gwestai gwenyn

- Angen ardaloedd prawf? Oes angen y rhain yn gyntaf fel sail?
- Rhaid cael meini prawf i foddhau awdurdodau lleol a chynghorau cymuned
- Hunan-ardystio – ffotograffau cyn ac ar ôl, rhestr o gamau gweithredu i'w gwneud, a chael system baner/arwydd sy'n dynodi am ba hyd mae gan y dref y statws (e.e. dwy flynedd)
- Sut rydym ni'n marchnata buddiannau'r cynllun?
- E-bostio cyflwyniad PowerPoint at bob ysgol
- Cynllun ar gyfer cael cymdogaeth enghreifftiol ym mhob awdurdod lleol
- Gwobrau i fusnesau blaengar
- Targedu dull archfarchnadoedd o blannu yn eu meysydd parcio
- Penderfynu ar logo
- Oes cyllideb gennym?
- Allwn ni gael Cynghorydd Gwenyn, fel TripAdvisor?
- Beth am ddechrau yn Ystradgynlais lle mae gan yr archfarchnad Tesco yno £2,000 i wario ar hybu bioamrywiaeth (gan Gyngor Powys)
- Is-bennawd – '*creating a better place to bee'*
- Cynnal blog gwenyn/peillwyr
- Cael rhywbeth tebyg i *Where's Wally?* o'r enw*Where's Polly?* – hynny yw, dewch o hyd i'r wenynen
- Cael pobl i dynnu hunluniau ar gyfryngau cymdeithasol o gynlluniau pryfed peillio ledled y wlad

**Grŵp 2**

- Meini prawf ar gyfer y cynllun?
- Rhestr wirio?
- Mynd amdani neu ddim byd?
- Ddim yn hawdd
- Ddylwn ni wthio trefi i wneud mwy?
- Tynnu ynghyd ganllawiau ategol o gynlluniau sy'n bodoli ar hyn o bryd (e.e. anghenion cynefinoedd neu gynlluniau ymyl heol yn Sir Fynwy)
- Ofynnwn ni am ymrwymiad dros dymor hirach, h.y. nid blwyddyn yn unig?
- Hefyd, ychwanegwch elfen o gofnodi iddo (OPAL, LRC, COBWEB)
- Gwneud yn siwr ein bod yn rhoi adborth i bobl
- Mae anhawster ynghylch rhywogaethau brodorol a rhywogaethau nad ydynt yn frodorol, felly mae angen rhagor o wybodaeth a chanllawiau arnom
- Mae angen inni hefyd ddarparu arwyddion a logos lawrlwythadwy, tystysgrif o ryw fath, meini prawf, sut mae'n berthnasol i eraill, e.e. ysgolion a busnesau?
- A yw'n flynyddol? Oes angen ail-ymgeisio amdano'n flynyddol? Beth yw'r model Tref Masnach Deg? A fyddai Llywodraeth Cymru yn gwerthuso ar ôl 3–4 blynedd? Ydyn ni'n cymharu'r effaith â threfi 'di-baill'?
- Hunan-ardystio – a fydd hyn yn faich gweinyddol? Oes lefelau gwahanol gennym? (e.e. 'gweithio tuag at') Ei anelu tuag at gyfrannu ac addysgu yn hytrach na chadwraeth wyddonol. Angen 'perchnogaeth' gan y gymuned
- Sectorau – oes llawer gennym? Ysgolion paill, busnesau paill.

- Pwy arall fydd yn ymgysylltu? Sgowtiaid/geidiaid, Cymru yn ei Blodau, cadwyr gwenyn, WI, Merched y Wawr, sioeau amaethyddol (dosbarth peillwyr).
- Ydyn ni'n targedu awdurdodau lleol a/neu gynghorau tref neu gymuned?
- Parciau trefol? Datblygwyr tai? Landlordiaid cymdeithasol cofrestredig?
- Lefelau gwahanol ar gyfer y cynllun? Cadwch e'n syml i ddechrau a'i ddatblygu ymhellach os yw'r galw'n datblygu. A allai 'cam 2' fod yn fwy dwys, e.e. 'mabwysiadu rhywogaeth' a fydd yn fwy arbenigol ac iddo fwy o gymorth a chanllawiau ac arwyddion y gellid eu lawrlwytho?
- Y lawnsiad mawr – cymeradwyo trefi/ardaloedd presennol sy'n dangos arferion gorau? Oes gennym 5 ledled Cymru? Ar gyfer, dyweder, lawnsiad yng ngwanwyn 2016?
- Materion eraill? Cyllid, yn arbennig ar gyfer y trydydd sector. Oes angen inni gydlynu ffynonellau cyllid yn well?

**Grŵp 3**

- Enw – ystyried ei gyfieithu i'r Gymraeg. Cael *'bee/* gwenynen' yn y teitl a 'peillwyr' yn is-bennawd? Defnyddio'r gair *'buzz'?* Ei wneud yn ddigon byr i ddefnyddio ar arwyddion ffyrdd. Allen ni ei wneud yn ddelwedd neu'n logo yn unig, hyd yn oed? Allen ni gynnal cystadleuaeth ar gyfer hyn ar Facebook, er enghraifft?
- Meini prawf – caniatáu i drefi/ardaloedd ddewis o ddetholiad o feini prawf. Faint? 5, fel ar gyfer model Tref Masnach Deg
- Neu gael adrannau gwahanol sydd â sawl maen prawf a chaniatáu iddynt ddewis ohonynt
- Os yw 'ymwneud â'r Cyngor' yn faen prawf, a yw hynna'n rhy fygythiol ar gyfer grwpiau bach yn y lle cyntaf?
- Rhywfaint o ymwneud â manwerthwyr a busnesau ar faterion bwyd a allai fod o fudd yn gymdeithasol hefyd
- Os ydym yn gweithio ag ysgolion, a fydd pryder iddyn nhw o ran iechyd a diogelwch?
- Allwn ni gynnwys hyn yn y pecynnau addysg newydd i ysgolion?
- Allen ni gael 'diwrnod peillwyr' neu 'wythnos peillwyr' yn flynyddol?
- Cynllun hunan-ardystio – oes enghreifftiau o hyn? Bydd angen adnoddau a logo lawrlwythadwy. Oes elfen hyfforddiant neu e-ddysgu iddo? Defnyddio gwefan Partneriaeth Bioamrywiaeth Cymru i gynnal y cynllun hwn
- Lefelau o ardystio – Na, cadwch hi'n syml, un lefel yn unig
- Bydd angen cysylltiadau da â sefydliadau eraill gydag adnoddau megis rhestr adnoddau peillwyr
- Ai cynllun blynyddol yw hwn?
- Anelu at sectorau gwahanol? Ie. Mae angen inni fod mor agored â phosibl ac ymwneud ag eraill
- Lawnsio yng ngwanwyn 2016. Efallai un lawnsiad cymunedol yng ngogledd Cymru ac un yn ne Cymru. Llawer o gyhoeddusrwydd, defnyddio enwogion?

Mae copi o gyflwyniad y gweithdy peillwyr ar gael ar gais.

## Gweithdy *Pollinator Towns /* Trefi'r Paill

## Cwestiynau i hwyluswyr gweithdai ac i'r is-grwpiau

1. Cynigiwch enw ar gyfer y prosiect; rhywbeth sy'n fyr a bachog ac sy'n gweithio yn y ddwy iaith

2. Beth ddylwn ni gynnwys yn y meini prawf ar gyfer cymuned sy'n dymuno cymryd rhan?

3. Sut y rhoddir cynllun hunan-ardystio ar waith mewn gwirionedd? Oes enghreifftiau da o hyn?

4. Ddylwn ni gael lefelau gwahanol o ardystio, e.e. aur, arian, efydd?

5. Beth fydd angen inni gynhyrchu i gyd-fynd â'r prosiect hwn? Gwefan, dolenni gwybodaeth ac ati?

6. Ai cynllun blynyddol fydd hwn, lle bydd angen i gymuned adnewyddu'r pethau a wnaiff bob blwyddyn, neu a yw'n ddigonol gwneud hyn unwaith a gadael i gymunedau fwrw ati eu hunain?

7. Ddylwn ni dargedu amrywiaeth o sectorau gwahanol, e.e. ddylwn ni gael cynllun gwahanol ar gyfer busnesau, ysgolion ac ati, neu ddylwn ni ddechrau gyda chymunedau i ddechrau a gweld sut aiff pethau cyn ehangu'r cynllun?

8. Sut gallwn ni rannu'r enghreifftiau cadarnhaol hyn gydag eraill er mwyn tynnu sylw at syniadau da, e.e. tudalen Facebook?

9. Pryd a sut byddai orau i lawnsio hyn?

10. Hoffai rywun fod yn rhan o is-grŵp y tasglu a fydd yn symud hwn yn ei flaen?

# Gweithdy datblygu'r Fforest Hir

### Steven Bromley, Cadwch Gymru'n Daclus

Rhoddwyd cyflwyniad bras er mwyn peidio dylanwadu ar yr atebion.  Rhannwyd y cyfranwyr yn ddau grŵp. Rhoddwyd dalen o bapur A2 i bob grŵp gyda thri chwestiwn:

**Beth sy'n gwneud perth dda?**
Grŵp 1)

Aeron/ffrwythau
Amrywiaeth dda o rywogaethau
Cysylltedd da
**Rheolaeth briodol**
**Ddim yn gadael stoc trwyddi**
**Fflora da ar y ddaear**
Rheolaeth dda o'r tir cyfagos
Rhywogaethau'n gwneud defnydd da ohoni
Oedran/cysylltiadau hanesyddol
Dulliau traddodiadol
Coed safonol a choed newid (sy'n amrywio o ran strwythur)
Yn ddeniadol i'r tirlun
Amrywiaeth – hen berthi a pherthi newydd
Gwerth o ran treftadaeth
Dim rhywogaethau goresgynnol
Crefftau traddodiadol yn parhau
Yn hygyrch
Cysgod

Grŵp 2)

**Amrywiaeth o ran rhywogaethau;planhigion ac anifeiliaid**
**Cyflwr da:** strwythur
uchder
lled
heb ddarnio
prysgwydd
amrywiaeth o ran oedran
**Wedi'i reoli'n dda gan gynnwys plygu gwrych, cylchdroi**
Heb blanhigion goresgynnol/planhigion gerddi
Wedi'i hamddiffyn yn ddigonol: yn ffisegol, o ran deddfwriaeth
**Ddim yn gadael stoc trwyddi**
Wedi'i lleoli'n briodol

## Pam bod perthi'n bwysig?

Grŵp 1)

**Diwylliant a threftadaeth**
**Coridorau bywyd gwyllt**
Bwyd
**Cysgod**
Eirin surion bach
**Cynefin**
Rhywogaethau: Pathewod, llwydiaid y berth, y fronfraith
Planhigion coetir hynafol
Mamaliaid
Infertebrata
**Tirweddau**
Sgiliau

Rheoli stoc
Tanwydd
**Rheoli perygl llifogydd**

Grŵp 2)
**Nodwedd y tirwedd**
**Cysgod**
Anifeiliaid
**Pwysigrwydd diwylliannol/hanesyddol**
Erydu priddoedd ac atal gwrtaith rhag llifo i ddŵr
Bwyd i bobl a bywyd gwyllt
**Coridorau bywyd gwyllt**
**Lliniaru llifogydd**
Nodi ffiniau
Peillio
Ymchwil
**Cynefinoedd**

## Bygythiadau i berthi

Grŵp 1)
**Difrod bwriadol**
**Rheolaeth wael/diffyg rheolaeth**
Ceirw
Pori
Moch daear
Diffyg rheolaeth ar dir cyfagos
Clefydau
Rhywogaethau anghywir
Prinder rhywogaethau lleol
Prinder gwybodaeth
Ffyrdd hawdd a rhad eraill
Dim ymwybyddiaeth o'u gwerth
Diffyg rheoliadau a gorfodaeth
Chwistrellu amhriodol/damweiniol
Edrych yn anniben yn sgil colli sgiliau traddodiadol
Datblygiadau a diffyg lliniaru effeithiau
Gor-driniaeth
Grŵp 2)
**Gwaredu**
**Diffyg rheolaeth; sgiliau traddodiadol, cyllid**
Gor-reoli neu reoli amhriodol
Effeithiau ar y cyrion yn sgil rheoli tir – nitreiddio
Da byw a cheirw
Drifft cemegol

Diffyg gwerthfawrogiad/apathi
Diffyg cyllid
Darnio: cloddiau 'bylchog' nad ydynt yn gweithio mwyach
Clefydau newydd i blanhigion
Casglu sbwriel trefol, rhywogaethau goresgynnol nad ydynt yn frodorol
e.e. ffromlys chwarennog

At ei gilydd, creodd y gweithdy gysylltiadau â phartneriaid posibl er mwyn gwella'r prosiect a chryfhau'r dull o'i gyflwyno.

# Crynodeb o'r sesiwn weithdy (taith maes) Technegau monitro bioamrywiaeth yng ngwarchodfa Biosffer Dyfi

Peter Dennis (IBERS, Prifysgol Aberystwyth)

Yn gyson â thema'r gynhadledd, edrychodd y gweithdy awyr agored hwn ar amryw o ddulliau o fonitro a dynodi cynnydd tuag at adferiad naturiol yng Nghymru. Fe'i cynhaliwyd yn RSPB Ynys-hir, yng Ngwarchodfa Biosffer Dyfi.

Roedd y dulliau samplo, mesuriadau a thechnegau dadansoddi a oedd ar gael i fonitro bioamrywiaeth wedi'u harddangos a'u trafod yn ystod y daith maes. Gan ddefnyddio nifer o orsafoedd gwybodaeth a osodwyd yng ngwarchodfa natur Ynys-hir, cyflwynwyd y dulliau canlynol i'r rhai oedd yn cymryd rhan: synhwyro o bell ar gyfer monitro cynefinoedd (a ddatblygwyd yng Nghors Fochno gan Becky Charnock ac a gyflwynwyd gan Lucy Hill o Brifysgol Aberystwyth); ymwneud y cyhoedd gyda chofnodi bioamrywiaeth (e.e. COBWEB) a gyflwynwyd gan Beverly Dimmock a Monica Lloyd-Williams, RSPB, a Jamie Williams, Environmental Systems, Abertawe, a oedd yn cynrychioli prosiect COBWEB yr UE; defnyddio dulliau côd bar meta-DNA i ddod o hyd i bioamrywiaeth anweledig y pridd, gan Andrew Detheridge, Prifysgol Aberystwyth; a dangosyddion uniongyrchol o fioamrywiaeth a argymhellwyd ar gyfer tir amaeth yn Ewrop gan brosiect diweddar yr UE, BioBio, yn benodol X-plotiau a ddefnyddir i archwilio llystyfiant yn rhaglen BioBio yr UE (ac Arolwg Cefn Gwlad y DU). Fe'i cyflwynwyd gan Will Stiles, a chyflwynodd Peter Dennis ddulliau o samplo mwydod, gwenyn gwyllt a chorynnod.

Rhoddodd y trefnydd, Peter Dennis, hefyd gyflwyniad cyffredinol i'r gweithdy, ac yn ystod y daith bws i Ynys-hir, dosbarthodd fapiau o'r pwyntiau gwybodaeth, ac wrth gyrraedd croesawyd pawb gan Beverly Dimmock. Rhoddodd Jamie Williams drosolwg cryno o brosiect COBWEB yr UE, a chyflwynodd Beverly Dimmock a Monica Lloyd-Williams yr ap ffôn clyfar a ddatblygwyd gan yr RSPB i fonitro newidiadau i'r llystyfiant mewn rhan o'r warchodfa lle mae morfa hallt yn cael ei hadfer. Cyfeiriwyd yr 18 o gyfranogwyr hefyd at holiadur a baratowyd gan Peter Dennis er mwyn cofnodi sylwadau ac adborth ynghylch y dulliau a ddangoswyd. Gofynnwyd tri chwestiwn ymlaen llaw er mwyn rhoi cyd-destun i fonitro bioamrywiaeth:

1. Pa mor rheolaidd y dylid mesur bioamrywiaeth yn eich barn chi? Pam?
2. Beth yw'r newidiadau ystyrlon y dylwn eu canfod drwy fonitro?
3. Beth yw'r ffordd orau o gyfathrebu gwybodaeth am newidiadau i fioamrywiaeth i'r rheiny sy'n gyfrifol am ei hadfer?

## Synthesis

Mae'r paragraff hwn yn crynhoi atebion i'r tri chwestiwn cyd-destunol (Atodiad 1). Roedd gan y cyfranogwyr ddiddordeb mewn canfod newidiadau mewn ysbeidiau oedd yn ymestyn o un wythnos i bum mlynedd, gan ddibynnu ar yr union rywogaeth neu gynefin dan sylw ac amcanion y rheolwyr. Ymddengys mai'r consensws oedd cynnal arolwg yn flynyddol at ddiben monitro. Roedd angen monitro er mwyn canfod newid mewn ystod eang o baramedrau: amlder, presenoldeb neu absenoldeb, a dosbarthiad rhywogaethau penodol; cyfoeth a chyfansoddiad dosbarth penodedig o rywogaeth a hefyd hyd a lled a chyflwr (fe'i disgrifir hefyd fel iechyd neu ansawdd) cynefinoedd. Nid oedd safbwynt clir o ran cael un paramedr fel canolbwynt ar gyfer arolygon mewn rhaglen fonitro. Yn olaf, yr hoff ffurf o gyfathrebu canlyniadau monitro oedd llunio map i gynrychioli'r newidiadau a welwyd o ran dosbarthiad (atlasau) neu niferoedd, megis amlder. Fel arall, ystyriwyd bod adroddiadau cryno, plaen yn ddefnyddiol, fel a ddefnyddiwyd i gyflwyno data yn adroddiad Sefyllfa Byd Natur. Roedd cael data ychwanegol ar-lein hefyd yn ddymunol er mwyn cadarnhau'r crynodebau cyfleus. Byddai gweithdai i staff perthnasol o grwpiau rhanddeiliaid o fudd er mwyn cyfathrebu'r tueddiadau neu'r newidiadau statws diweddaraf ym maes bioamrywiaeth, ond hefyd er mwyn trafod goblygiadau i bolisi a rheolaeth.

Roedd diddordeb mawr yn ap arolwg planhigion yr RSPB ar gyfer ffôn clyfar neu lechen, a ddatblygwyd drwy COBWEB (Atodiad 2a). Soniodd llawer o gyfranogwyr mor hawdd oedd ei ddefnyddio, ei allu i gywain data sylweddol mewn amser byr, a'i swyddogaeth bwysig, gysylltiedig i hyrwyddo ymgysylltiad y cyhoedd â chadwraeth natur, ac addysg. Ystyrid bod y nifer fach o wybodaeth fanwl a'r cyfleoedd prin i gadarnhau beth a nodwyd, er budd rheoli ansawdd, yn cyfyngu ar gywirdeb a defnydd y dull hwn. Ystyriwyd bod cael dolen ffurfiol â Chanolfannau Cofnodi Lleol yn hanfodol er mwyn gwarchod a rhoi mynediad i'r data, fel y gellid asesu tueddiadau yn rheolaidd mewn cynefinoedd a arolygwyd. Cyflwynir y data hyn o ffynonellau torfol fel rhan o adroddiad ar wahân ar weithdy COBWEB ar ail ddiwrnod y gynhadledd, a roddwyd gan Jamie Williams.

Roedd y broses o ddethol y dangosyddion uniongyrchol o fioamrywiaeth a argymhellwyd gan brosiect BioBio yr UE yn cynnwys gwerthuso dangosyddion niferus o fioamrywiaeth a oedd yn bodoli eisoes (Atodiad 2b). Dewiswyd pob un os oedd yn wyddonol gadarn, yn berthnasol ar gyfer tir amaeth yn holl wledydd Ewrop, ac yn berthnasol a defnyddiol i randdeiliaid. Aseswyd cannoedd o

ymgeiswyr mewn gweithdai arbenigol, ac fe'u lleihawyd yn y pen draw i bum dangosydd a oedd yn cynrychioli amodau lleol a thirweddol, a lefelau troffig gwahanol ecosystemau (yn cyfateb i wasanaethau ecosystem). Dewiswyd adar tir amaeth yn awtomatig, yn seiliedig ar gynllun monitro adar cyffredin traws-Ewropeaidd, a diddordeb sylweddol gan randdeiliaid yn y grŵp hwn. Felly canolbwyntiodd BioBio ar werthuso dangosyddion ychwanegol yn ffurfiol, yn benodol planhigion (ar gyfer amrywiaeth a chynhyrchiant cynradd – a samplwyd unwaith gydag X-plot fel a ddyfeisiwyd ar gyfer Arolwg Cefn Gwlad y DU), mwydod (detritysydd a'u rôl yn ffrwythlondeb y pridd – a samplwyd unwaith gyda thri chraidd pridd 30cm × 30cm, i ddyfnder o 20cm), gwenyn gwyllt (urdd llysysyddion– peillwyr â rôl ym mheillio planhigion bwyd – a samplwyd dair gwaith gyda cherddediad a amserwyd ar hyd trawsdoriad o 100m, gan ddefnyddio'r un ffenest 2m × 2m a throthwyon tywydd ag ar gyfer cerddediad ieir fach yr haf), a chorynnod (ysglyfaethwr a gelyn naturiol plâu cnydau – a samplwyd ar dri achlysur gyda phum sampl sugno). Yn ddiddorol, cafodd llau planhigion, sy'n cael eu samplo'n effeithiol gyda samplau sugno, eu cynnig yn ddangosyddion yn ystod y gynhadledd gan Mike Wilson, ond ni chawsant eu rhoi ar y rhestr fer yn ystod gwerthusiad gwyddonol BioBio yn sgil pryderon ynghylch eu canfod yn gywir a diffyg arbenigedd. Hefyd, nid oedd yn taro'r rhanddeiliaid fel dangosydd a fyddai'n debygol o apelio at y cyhoedd neu gwsmeriaid (er enghraifft, prynwyr cynnyrch bwyd a gysylltir â phroses gynhyrchu organig neu Ddynodiad Daearyddol Gwarchodedig). Dangoswyd sut y byddid yn ymarferol yn cynnal arolwg ym mhob categori parsel a nodwedd llinell a fapiwyd ar draws pob fferm darged mewn arolwg o flaen llaw o lystyfiant pori ac amaeth mewn cynefinoedd fferm, ynghyd â pharseli o gynefinoedd lled-naturiol (e.e. gwlyptiroedd, coetiroedd a phyllau) a nodweddion llinellol (e.e. perthi, ymylon ffordd a glannau nentydd). Dilynwyd hyn gan drafodaeth fer, ac roedd hi'n amlwg wrth yr adborth bod consensws cyffredinol. Roedd cywirdeb, dibynadwyedd ac ansawdd gwyddonol y data yn cael eu gwerthfawrogi gan y cyfranogwyr i gyd, ond yn yr un modd, cydnabuwyd bod yr amser, ymdrech (cost sylweddol) a'r angen am arbenigedd yn rhwystrau.

Crëwyd argraff ar botensial meta-barcodio DNA er mwyn datgelu bioamrywiaeth guddiedig y pridd yn gywir, ac yn benodol y potensial i ganfod rhywogaethau o ffyngau drwy gydol y flwyddyn, yn rhai sy'n ffrwytho ac nad ydynt yn ffrwytho (Atodiad 2c). Roedd diddordeb hefyd o ran beth gall y casgliad a ganfuwyd ddatgelu am hanes rheolaeth y safle, yn benodol ei hanes amaethu neu ddefnydd o wrtaith nitrogen. Roedd cael gafael ar gyfarpar technegol ac arbenigedd cymwys, a chost hynny, yn cael eu hystyried yn anawsterau ar gyfer defnyddio'r dull hwn.

Roedd dadansoddi llystyfiant trwy wybodaeth a synhwyrwyd o bell, o safleoedd megis cyforgors tir isel Cors Fochno, yn ddeniadol i gyfranogwyr (Atodiad 2d). Ystyriwyd bod y dosbarthiad eang, a'r dull o weithio ar safleoedd mawr, sensitif neu anghysbell, yn gryfderau. Gwerthfawrogodd y cyfranogwyr bod y gallu i adnabod y rhywogaethau llystyfiant nodweddiadol ar adegau gwahanol o'r flwyddyn yn fodd i ailadrodd asesiadau er mwyn monitro cyflwr cynefinoedd. Roedd cost uchel y dull cymhleth, technolegol hwn o gynnal arolwg llystyfiant mewn safleoedd targed er mwyn cadarnhau tueddiadau a awgrymir, a'r canlyniadau gor-gyffredinol, yn bryderon a godwyd gan gyfranogwyr. Gofynnwyd cwestiynau hefyd am y gost benodol o brynu delweddau addas a synhwyrwyd o bell, a dibynadwyedd y modd o ddadansoddi'r delweddau pan fo rhai rhywogaethau megis *Sphagnum* yn gallu newid yn ôl ysgogiadau allanol nad ydynt a wnelont â'r tymor. Roedd sawl un am wybod a roddwyd ystyriaeth i grynhoad nitrogen tra datblygwyd y dull. Roedd cytundeb cyffredinol y gallai hyn fod yn fodel defnyddiol ar gyfer pennu pa rywogaethau o blanhigion sy'n bresennol, yn arbennig

mewn safleoedd mawr neu ddiarffordd, ac o botensial y dull hwn wrth ddatblygu modelau ar addasrwydd cynefinoedd ar gyfer rhywogaethau penodol.

I grynhoi, gwerthfawrogwyd manteision cymharol y dulliau a ddangoswyd yng nghyd-destun canfod newidiadau mewn bioamrywiaeth.  Mae'r diwylliant o ofal ariannol yn y sector yn tueddu i ddylanwadu'n gryf ar y farn ynghylch poblogrwydd a defnydd y dulliau yn y dyfodol, wrth i amheuon gael eu mynegi am y dulliau sy'n seiliedig ar weithdrefnau arbenigol a thechnolegol, neu rai sy'n ddibynnol ar arbenigwyr hyfforddedig. Roedd defnyddio technoleg ar ffurf apiau ffôn clyfar er mwyn cywain gwybodaeth yn dorfol yn boblogaidd, ond roedd dal terfyn ar yr hyn y gellir ei gofnodi mewn gwirionedd ac ansicrwydd ynghylch ansawdd y data ar gyfer asesu tueddiadau. Y cyfyng-gyngor yw bod angen dulliau arolygu manwl i ddarparu'r wybodaeth fonitro a amlinellwyd. Dywedodd y cyfranogwyr fod y wybodaeth hon yn angenrheidiol yn y cwestiynau agoriadol uchod, ond nid oes modd ei darparu ond trwy ddefnyddio'r dulliau monitro mwyaf drud a gwyddonol gredadwy.




**Ffigur 1.** Gweithdy technegau monitro bioamrywiaeth. Chwith uchaf: Gorsaf wybodaeth lle dangoswyd y dulliau samplo ar gyfer dangosyddion BioBio yr UE ar gyfer monitro corynnod, gwenyn gwyllt a mwydod. Dde uchaf: Will Stiles yn disgrifio'r X-plot ar gyfer yr arolwg botanegol fel rhan o BioBio yr UE. Chwith isaf: Andrew Detheridge yn disgrifio'r dull o feta-barcodio DNA er mwyn canfod ffyngau yn y pridd; a darlun o'r cyfaddawd clasurol ar gyfer monitro, fel cyd-destun ar gyfer y dulliau hyn i gyd.

**Atodiad 1**. Atebion i'r tri chwestiwn cyd-destunol ynghylch monitro bioamrywiaeth.

| Rhif cwestiwn | Crynodeb o'r atebion |
|---|---|
| 1 | 1. Mae'n dibynnu ar y cynefin lle cofnodir newidiadau; mae cynefinoedd a rhywogaethau gwahanol yn newid ar gyflymder gwahanol. Dwy i bum mlynedd i gofnodi newid NEU os yw amodau/amgylchedd yn newid cyn ac ar ôl y fath newid.<br>2. Mae'n dibynnu ar y rhywogaeth/cynefin a dargedir a pha mor aml y disgwylir i'r amgylchedd a'r cyrhaeddiad newid. Mae'n dibynnu ar bwrpas y monitro, e.e. lle mae'r amgylchedd yn newid yn fwy rheolaidd mae angen dynodi'r effeithiau, e.e. ardaloedd trefol a datblygiadau.<br>3. Arolygon wythnosol ar gyfer monitro'n flynyddol – mor aml â phosibl er mwyn cael syniad manwl-gywir o dueddiadau a ffactorau a allai fod wedi creu newid. |

| | |
|---|---|
| | 4. Yn flynyddol, oherwydd mae newid sylweddol, catastroffig yn aml yn digwydd yn gyflym pan ddigwyddith.<br>5. Ie, i fonitro cynnydd tuag at adferiad natur ac i gynnal cyflwr safleoedd.<br>6. Yn flynyddol ac i edrych ar newidiadau tymor hir.<br>7. Bob pum mlynedd ac yn amlach mewn safleoedd sensitif. I ganfod newid yn gynnar heb fod yn rhy feichus.<br>8. Yn ddibynnol ar yr hyn a dargedir, cymaint â phosibl. Mae bob blwyddyn yn ddymunol siwr o fod, ond yn gostus; o leiaf pob pum mlynedd.<br>9. Dibynnu ar amcanion, ond mae cael adnoddau i gefnogi monitro tymor-hir, y gellir ei ail-adrodd, yn allweddol. |
| 2 | 1. Maint a iechyd y cynefin, dosbarthiad a nifer y rhywogaethau.<br>2. Newidiadau ym maint, dosbarthiad ac ymlediad y rhan fwyaf o rywogaethau, ond efallai y bydd ond angen nodi presenoldeb neu absenoldeb ar raddfa eang yn achos rhai grwpiau rhywogaeth. Yn dibynnu ar y defnydd o'r data.<br>3. Newidiadau ym maint y boblogaeth a chyfansoddiad y gymuned (rhywogaeth?).<br>4. Newidiadau mawr i gynefinoedd. Newidiadau mawr i amlder rhywogaethau allweddol neu i gyfoeth cyffredinol y rhywogaeth.<br>5. Newidiadau i gyflwr cynefinoedd neu o ran colli cynefinoedd. Gostyngiad mewn rhywogaethau.<br>6. Olyniaeth llystyfiant, newidiadau mawr i gyfansoddiad rhywogaethau neu i leithder y pridd (gan ddibynnu ar yr amgylchedd).<br>7. Nifer, dosbarthiad ac amlder rhywogaethau.<br>8. Nifer y rhywogaethau a rhywogaethau dangosydd.<br>9. Ddim yn berthnasol. |
| 3 | 1. Nid yw pobl yn darllen adroddiadau mawr, ond rhaid wrth adroddiadau i gadarnhau newidiadau. Cyfarfodydd wyneb yn wyneb a thrwy ymweliadau, os yw Llywodraeth Cymru yn darparu cyllid ar gyfer staff ar lawr gwlad i ddod ynghyd mewn ymweliadau safle ac i gyfrannu atynt. Mae angen i’r cyhoedd cyffredinol gael: straeon diddorol sy'n berthnasol iddynt.<br>2. Mapiau sydd â haenau o ddata daearyddol GIS.<br>3. Angen rhoi atebion cadarnhaol ar gyfer adfer natur a bod yn gyfleus a dealladwy i gynulleidfa eang, gan fod nifer o sectorau mewn cymdeithas yn gyfrifol.<br>4. Adroddiadau o fath 'Sefyllfa Byd Natur' ynghyd â chrynodebau ar-lein o ddata 'byw'.<br>5. Yn dibynnu ar eich cynulleidfa.<br>6. Nifer y rhywogaethau sy'n bresennol. Newidiadau mawr i niferoedd y rhywogaethau allweddol a'r rhywogaethau a warchodir.<br>7. Offer mapio sy'n dangos newid dros amser.<br>8. Mapio.<br>9. Yn ddelfrydol, drwy ganolbwynt trosfwaol ar gyfer bioamrywiaeth Cymru lle cedwir, cesglir a rhennir gwybodaeth yn amserol. Rôl ar gyfer Cyfoeth Naturiol Cymru. |

**Atodiad 2**. Adborth ar werth cymharol y dulliau amrywiol o fonitro bioamrywiaeth a ddangoswyd yn ystod y gweithdy.

| Arddangosiad | Cryfderau | Gwendidau |
|---|---|---|
| a. Ap torfol COBWEB | 1. Llawer o ddata ar gael ar gost gymharol isel. Yn ymgysylltu ag ystod eang o bobl. Gallai Good App fod yn offeryn defnyddiol iawn ar gyfer prosiectau dros ardal eang.<br>2. Ap addysgol gwych ar gyfer arolygon cyflwr. Yn cofnodi'r data ar unwaith. Yn gadael i fwy o ddata gael ei gywain.<br>3. Syml iawn a hawdd i'w ddefnyddio.<br>4. Hawdd i'w ddefnyddio, potensial i gipio nifer fawr o ddata cyfredol.<br>5. Hawdd i'w ddefnyddio. Offeryn addysgol defnyddiol.<br>6. Hawdd i'w ddefnyddio a'i ddeall. Cost isel iawn fesul arolwg a gall gywain llawer o ddata yn rhad. Yn caniatáu i'r cyhoedd gymryd rhan yn yr | 1. Nid yw'r wybodaeth yn fanwl ac mae angen crynhoi'r data.<br>2. Bydd angen arbenigedd os yw i gael ei ddefnyddio mewn polisi, oni bai bod data penodol iawn yn cael ei gasglu. Yn llyncu llawer o amser.<br>3. Efallai nad yw'n berthnasol i lawer o sefyllfaoedd, yn enwedig gyda phrinder llystyfiant a rhywogaethau.<br>4. Data amhenodol.<br>5. Methu gweld sut gall gyfrannu at arolwg ecolegol llawn. Cadernid y data a'i ddefnyddioldeb.<br>6. Categorïau data simplistig. Nid yw'n sefyll yn y ddyfais yn unig – mae angen darparu dalenni papur. Mae rheoli ansawdd y data yn broblem. |

| | | |
|---|---|---|
| | arolwg.<br>7. Hawdd i'w gasglu ac i ymwneud â'r cyhoedd.<br>8. Hawdd i'w ddefnyddio. Apelgar i blant. Gall data gael ei gadw mewn un lle unigol.<br>9. Hawdd i'w ddefnyddio ac yn offeryn da i ymgysylltu â'r cyhoedd. | 7. Ansawdd ansicr i'r data.<br>8. Yn gofyn am wybodaeth o gyfrifiaduron ac efallai'n rhy gyffredinol.<br>9. Ansawdd y data – anodd ei gadarnhau gydag arbenigedd. Perygl y bydd diffyg cyswllt gyda chanolfannau cofnodion lleol eraill ac y bydd yn creu canolfan casglu data arall. |
| b. Mesuriadau uniongyrchol o ddangosyddion bioamrywiaeth BioBio | 1. Cymhariaeth dda ar draws gwledydd. Canlyniadau manwl ar nifer ac amlder rhywogaethau. Cofnodion da ar hyd a lled y cynefin. Wedi cipio darlun da o amaethu a bioamrywiaeth, gan ymgysylltu â ffermwyr.<br>2. Gwych ar gyfer cymhariaeth fesul ardal ac yn wyddonol gadarn.<br>3. Modd ei ailadrodd dros ystod eang o gynefinoedd.<br>4. Cywirdeb; setiau data trylwyr. Gellir ei weithredu ar lefel Ewrop gyfan.<br>5. Setiau data trylwyr a modd i'w ailadrodd.<br>6. Gallu dynodi rhywogaethau'n fanwl ar gyfer y rhan fwyaf o ddosbarthiadau rhywogaeth.<br>7. Ansawdd rhagorol i'r data.<br>8. Da.<br>9. Data manwl-gywir ar gyfer nifer o ddosbarthiadau rhywogaeth. | 1. Yn ddrud, yn llyncu llawer o amser ac yn ddibynnol ar y tywydd. Amrywiaeth rhwng arolygwyr. Rhychwant cul i'r dangosyddion.<br>2. Cost ac amser rhai o'r arolygon yn erbyn faint o gywirdeb sydd ei angen arnoch.<br>3. Yn gyfyngedig ac yn llai perthnasol ar begynau eithafol y sbectrwm cynefin, e.e. ffermydd tir cras neu ffermydd mynydd.<br>4. Angen llawer o amser / mewnbwn profiadol. Diffyg arbenigedd digonol.<br>5. Yn ddrud ac yn gofyn am lawer o arbenigedd.<br>6. Angen profiad ac arbenigedd ac yn llyncu llawer o amser. Drud iawn os defnyddir arbenigwyr i adnabod sbesimenau mewn samplau. Pa mor eang/aml gallwch chi wneud hyn?<br>7. Y gost ac amser.<br>8. Diffyg cywirdeb ac yn llyncu amser.<br>9. Yn dibynnu ar nifer go dda o dacsonomyddion hyfforddedig. Gallai fod yn gostus. |
| c. Canfod yr amrywiaeth o ffyngau yn y pridd (meta-barcodio DNA) | 1. Cywirdeb a'r gallu i adnabod ffyngau pa na fyddant yn ffrwytho, fel y gellid monitro ar unrhyw adeg o'r flwyddyn.<br>2. Gellir ei gynnal drwy gydol y flwyddyn ac felly gall gyfrannu at bolisi. Ymddengys yn gywir iawn.<br>3. Mae'n darparu data ar fyd a fu'n guddiedig ynghynt (ffyngau nad yw'n ffrwytho) a mynediad at ddata am ffyngau drwy gydol y flwyddyn. Hefyd, mae tystiolaeth o ddefnydd hanesyddol ohono yn y maes, i raddau.<br>4. Cywirdeb; cywain llawer o ddata am fewnbwn cymharol fach.<br>5. Data cadarn. Yn datguddio ecoleg dan ddaear nad yw'n amlwg ac sy'n gallu cael ei cholli mewn arolygon eraill.<br>6. Protocol samplo syml a dynodir nifer fawr o ddosbarthiadau ar unwaith.<br>7. Cyflym, cost effeithiol a chynhwysfawr.<br>8. Yn gywir a dibynadwy.<br>9. Gellir ei wneud ar unrhyw adeg o'r flwyddyn. Mae sawl defnydd posib (monitro cyflwr, arolygon llystyfiant mewn asesiadau o'r effaith amgylcheddol). | 1. Drud. A fydd yn gallu llywio rheolaeth? Braidd yn arbenigol.<br>2. Nid yw'n dynodi'r llystyfiant, dim ond hyd y cyfnod y bu'n ddigyffwrdd, ond mae dal yn ddefnyddiol.<br>3. Nid yw eto ar lefel y rhywogaethau, ond mae'n debyg y bydd hynny'n cael ei ddatrys yn fuan.<br>4. Yn benodol iawn i gasgliad penodol.<br>5. Angen mynediad at gyfarpar ac arbenigedd perthnasol.<br>6. Dibynnu ar gyfarpar technoleg uwch. A ellir ei ymestyn i ddosbarthiadau rhywogaeth eraill lle deëllir pwysigrwydd ecolegol yn well?<br>7. Ddim yn berthnasol<br>8. Ddim yn berthnasol<br>9. Cost dadansoddi. |
| d. Synhwyro o bell er mwyn | 1. Amser arolygu ar y llawr – yn gallu | 1. Gor-gyffredinol a chost uchel yr |

| | | |
|---|---|---|
| asesu newidiadau i lystyfiant ac ansawdd cynefinoedd | dynodi rhannau i ymweld â nhw. Yn dibynnu ar gywirdeb y wybodaeth sy'n cael ei mewnbynnu, e.e. newidiadau tymhorol i'r Sphagnum. Yn cwmpasu ardaloedd eang.<br>2. Yn dda ar gyfer peidio â tharfu ar gynefinoedd sensitif. Pan gesglir y data, gall fod yn wych ar gyfer monitro.<br>3. Potensial i'w ddefnyddio mewn ardaloedd sensitif, diarffordd neu ardaloedd eang.<br>4. Gall roi data da iawn ar raddfa fawr er mwyn dynodi newidiadau tymor hir.<br>5. Defnyddiol ar gyfer arolygon ar raddfa fawr a safleoedd diarffordd.<br>6. Yn cwmpasu ardaloedd eang ar unwaith.<br>7. Yn gyflym ar raddfa'r tirwedd.<br>8. Gellir gweld ardaloedd eang. Nid yw'n cywasgu llawer o'r ddaear ar y safle.<br>9. Potensial da ar gyfer ailadrodd monitro dros dymor hir unwaith bydd y llinell sylfaen wedi'i sefydlu a cheir arwydd lloeren ar gyfer y rhywogaethau allweddol. Potensial da ar gyfer safleoedd mawr a monitro rhywogaethau goresgynnol nad ydynt yn frodorol. | arolwg.<br>2. Costus iawn ac yn cymryd llawer o amser i sicrhau ei fod yn gywir.<br>3. Drud.<br>4. Ddim yn berthnasol<br>5. Drud ac yn gofyn am galibreiddio'r data a rhaglennu cymhleth.<br>6. Angen calibreiddio data ac yn ddrud.<br>7. Anfanwl a gor-gyffredinol.<br>8. Costus am mae angen oriau lu o ymdrech.<br>9. Yn llyncu llawer o amser. Drud i gael y delweddau manwl sydd eu hangen. Dal angen calibreiddio'r data. |

# Gweithdy Cronfa Dreftadaeth y Loteri (CDL)

### Arweinydd: Julie Hughes CDL Cymru
### Hwylusydd:Anne MacDonald (Cyfoeth Naturiol Cymru)

Roedd y gweithdy ar gyllid CDL yn gymysgedd diddorol o wybodaeth a gweithgareddau a oedd o ddefnydd ac o ddiddordeb i'r cyfranogwyr.
Pwysleisiodd Julie fod 'Treftadaeth Naturiol' yn cynnwys gwaith o fath bioamrywiaeth hefyd, felly nid oes angen i chi deimlo bod angen i chi ddod o hyd i 'ddolen' hanesyddol i gydio yn eich prosiect er mwyn iddo fod yn gymwys i fod yn 'dreftadaeth'.

Pan ofynnwyd beth oedd eu 'treftadaeth naturiol', dywedodd y cyfranogwyr y canlynol: mursennod, adar y môr, gweirgloddiau, pryfed, y môr, yr holl gynefinoedd naturiol, byd bach, gwlyptiroedd, gardd fotaneg yng ngogledd Cymru, a choed hynafol.

**Rhwystrau rhag ymgeisio a ddynodwyd:**

1. Mae angen cymal datblygu ar gyfer prosiectau ‘Ein Treftadaeth’ (hyd at £100,000) i roi cyfle i ymgynghori'n helaeth â'r gymuned.

2. Angen rhywun i ymgeisio – tipyn o gamp i grwpiau cymunedol bach.

**Atebion i'r rhwystrau hyn:**

1. Ystyried cymal datblygu ar gyfer prosiectau dan £100k

# Cynhadledd Partneriaeth Bioamrywiaeth Cymru – gweithdy LIFE

### Rhaglen Natura 2000 / Cyfoeth Naturiol Cymru

Rhwystrau

- Darparu cyfleoedd a chyfnodau cyllido cyfredol
- Angen cymorth gan arbenigwr
- Angen hysbysebu cyfleoedd, e.e. ar wefan Llywodraeth Cymru
- Maint y cynnig – capasiti ac adnoddau angenrheidiol i fedru cystadlu am y cynnig
- Diffyg arian cyfatebol gan Gyfoeth Naturiol Cymru a Llywodraeth Cymru – angen cadarnhau hyn
- Natur tymor byr trefn staffio cyrff anllywodraethol ym maes cadwraeth (byddai cyllid tymor hirach yn talu am staff)

Sylwadau ar brosiectau sydd yn yr arfaeth ar gyfer cynnig LIFE

- Cynnig twyni tywod – beth yw'r gwaith cadwraeth?
- Prosiect llwybrau morol – wedi'i or-ymestyn. Gormod o lwybrau a gormod o newidynnau (e.e. balast mewn tanceri). Ydy'r cynigwyr wedi siarad ag arweinwyr polisi morol Llywodraeth Cymru?
- Mae Coedydd Derw Meirion yn mynd rhagddi (e.e. y cynnig rhododendron)

Rôl fforwm LIFE

- Angen bod yn dynn, â phwyslais penodol ac wedi'i reoli'n dda – gall fod yn rhan o'r ateb i rai o'r rhwystrau
- Canolbwyntio ar gynigion sydd i ddod a chreu partneriaethau – nid yw sefydliadau'n gwybod pa brosiectau sy'n cael eu datblygu
- Dysgu o gynigion o'r gorffennol/a fethodd/a lwyddodd – angen crynhoi'r wybodaeth hon
- Gall fod yn fforwm Ewropeaidd ehangach, nid wedi'i gyfyngu i gynigion LIFE yn unig
- Gellir rhannu gwybodaeth am gynigion dan raglenni eraill yr UE, e.e. INTERREG
- Mae angen i hyfforddiant ganolbwyntio ar y bobl sy'n paratoi'r cynnig mewn gwirionedd
- Model Cynllun Datblygu Gwledig – angen ymyrraeth 100% i ddatblygu cynigion. A fydd y Cyd-Bwyllgor Gwarchod Natur yn gwneud hyn? Ddylai Cyfoeth Naturiol Cymru gefnogi hyn? Ni all sefydliadau unigol ddatblygu cynigion – maen nhw'n cymryd naw mis.
- Rôl Cyd-Bwyllgor Gwarchod Natur – dylai fod yn gyflenwol ac osgoi dyblygu

- Angen ymgysylltu â sectorau eraill yn syth o'r cychwyn
- Angen pwynt cyswllt canolog yng Nghymru
- Mae gan RSPB Cymru gyllid Llywodraeth Cymru ar gyfer:
    - Datblygu cynigion
    - Gweithdai, gan dynnu partneriaid ynghyd
    - 40–60 diwrnod y flwyddyn, ar gyfer 2–3 o bobl yn rhan amser
    - Gobeithio am 2–3 chynnig mawr
    - Hyfforddiant BETA Ewrop
    - Datblygu arbenigedd mewnol

# Crynodeb o’r Gweithdy: Arddangos y Prosiect ‘Citizen Observatory WEB’ (COBWEB), a sut y gallai weithio ar eich cyfer yn y dyfodol

**Dr Jamie Williams, Environment Systems**

Prosiect Ewropeaidd cydweithredol sy’n ceisio galluogi dinasyddion i gasglu a chyfrannu at ddata amgylcheddol trwy ddefnyddio dyfeisiadau symudol (ffonau clyfar a llechi) yw COBWEB. Bydd y data’n addas i’w defnyddio mewn gwaith ymchwil, wrth wneud penderfyniadau ac wrth lunio polisïau.

Yn ystod Cynhadledd Bioamrywiaeth Cymru 2015, daeth cynrychiolwyr o feysydd a chefndiroedd ecolegol gwahanol ynghyd i ddysgu am brosiect COBWEB a’i drafod.

Mae COBWEB yn dibynnu ar yr hyn a elwir yn ‘ffynonellu torfol’; gwybodaeth (data) a gesglir gan ‘dyrfa’ amhenodol. Mae twf na welwyd mo’i debyg o’r blaen wedi bod ym mhoblogrwydd dyfeisiadau symudol, ac mae gan nifer o’r rhain synwyryddion System Leoli Fyd-eang (GPS), ynghyd â chysylltiad â’r rhyngrwyd. O’r herwydd, mae yna botensial mawr i ddinasyddion weithredu fel synwyryddion o fewn yr amgylchedd y maent yn byw ynddo, gan gasglu data gyda’u dyfeisiadau symudol. Nod COBWEB yw cynllunio ‘seilwaith meddalwedd’ addas ar gyfer hwyluso a gwireddu hyn, gan sicrhau bod yr wybodaeth a gesglir gan ddinasyddion yn ddigon dibynadwy i lywodraethau ac ymchwilwyr ei defnyddio.

Yn ystod y gweithdy, cafodd y cynadleddwyr eu cyflwyno i brosiect COBWEB a dangoswyd iddynt sut y gall pawb ddefnyddio porth COBWEB (gwefan) i greu eu harolwg ‘gwyddoniaeth y dinesydd’ eu hunain er mwyn casglu data. Yna, chwiliodd y cynadleddwyr am löynnod ar Gampws Prifysgol

Aberystwyth ac aethant ati i gofnodi eu harsylwadau ar ffôn symudol. Yn dilyn hyn, casglwyd yr wybodaeth ac edrychwyd arni ar-lein ar fap rhyngweithiol.

Yna, cafodd y cyfranogwyr gyfle i drafod sut a pham y mae ffynonellu torfol a gwyddoniaeth y dinesydd yn ddefnyddiol ym maes bioamrywiaeth, a sut y gellir gwneud y data a gesglir gan ddinasyddion yn ddibynadwy ac yn rhyngweithredadwy. Trafodwyd y canlynol parthed ffynonellu torfol/gwyddoniaeth y dinesydd:

- mai offer ychwanegol ydynt mewn pecyn ecolegol, fel ffordd o gasglu data a thanio dychymyg y cyhoedd mewn gwyddoniaeth
- na ddylid eu hystyried fel pethau sy'n disodli ecolegwyr maes a thechnegau arolygu llymach eraill ond, yn hytrach, y dylid eu hystyried fel elfennau ategol
- mai ffyrdd o gynhyrchu gwybodaeth (data) yn ymwneud â'r amgylchedd ydynt a bod angen i'r data dan sylw fod yn rhyngweithredadwy

Os hoffech gael mwy o wybodaeth am y Prosiect COBWEB, edrychwch ar y wefan: cobwebproject.eu




**Mae'r prosiect hwn wedi derbyn cyllid gan Seithfed Raglen yr Undeb Ewropeaidd ar gyfer ymchwil, datblygiad technolegol, ac arddangos, dan gytundeb grant Rhif 308513**

# Gweithdy Glastir ar gyfer grantiau amgylcheddol bach

### Carol Driver a Catrin Cullen, Llywodraeth Cymru

### Cyflwyniad

Rhoddodd Carol Driver (Ll.C) rywfaint o gefndir y cynllun i'r grŵp:

- Mae'r cynllun ar agor i berchnogion tir ac yn rhoi cyfle i'r rheiny sydd â thir mwy cynhyrchiol yn draddodiadol i gael cyllid buddsoddi cyfalaf dan waith cyfalaf Glastir.

- Mae'r cynllun yn newydd sbon ac ni ddechreuwyd ar y gwaith datblygu hyd yn hyn, ac felly mae'r grŵp yn gofyn beth ddylai pwyslais y cynllun fod, beth ddylid ei gyllido, a phwy ddylai Llywodraeth Cymru ymwneud â nhw.

### Trafodaeth

Holodd rhai aelodau o'r grŵp pam bod angen i'r cyllid fod yn waith cyfalaf yn unig, ac esboniwyd y bydd y cynllun yn cael ei gyllido dan is-fesur 4.4 o'r Rheoliad Datblygu Gwledig, sy'n golygu y gellir defnyddio eitemau ar gyfer buddsoddiadau anghynhyrchiol yn unig. Felly, ni all unrhyw beth a gyllidir gynyddu proffidioldeb y fferm.

Awgrymodd rhai aelodau na ddylai'r cynllun dargedu ardaloedd yng Nghymru a dargedir eisoes gan Glastir Uwch; rhaid iddo ymestyn ledled Cymru er mwyn dangos nad ydym yn rhoi mantais annheg. Y broblem gyda hyn, fodd bynnag, yw na fydd y gyllideb yn ymestyn yn ddigon pell i gyllido popeth. Er enghraifft, os penderfynir cynnwys perthi, ni fydd digon o arian i ariannu pob perth. Rhaid rhoi rhai cyfyngiadau ar waith. Mae angen i'r cynllun grantiau bach gyd-fynd ag amaethu cynaliadwy. Mae hen gynllun perthi y Cyngor Cefn Gwlad yn enghraifft dda.

Cyfeiriwyd at fuddiannau traws-adrannol fel rhywbeth i fwrw golwg arnynt. Byddai llifogydd afonydd, er enghraifft, yn denu buddiannau lu.

Byddai'n ddymunol cael pecyn pori i ariannu eitemau megis corlannau/ffensys/cafnau.

Nodwyd na fanteisiwyd ar rai o ddewisiadau'r mapiau cyfle. Efallai byddai'n dda inni ganolbwyntio ar rai o'r rhain – er enghraifft, coed newydd.

Awgrymwyd ein bod yn anelu at y rheiny nad ydynt yn dod i mewn i gynllun Glastir am nad yw'n gwneud synnwyr iddynt. Maen nhw'n teimlo wedi'u hynysu oddi wrth weithgarwch bioamrywiaeth, er nad ydynt wir eisiau bod felly. Er nad yw Llywodraeth Cymru yn gallu targedu rhai ffermwyr penodol, bydd cyrff y diwydiant yn gallu targedu eu haelodau.

Nodwyd pryderon am y dull o gyflwyno'r cynllun, yn enwedig o ran darparu cyngor/swyddogion prosiect ar gorff cynghori.

Heb gorff cynghori, roedd y grŵp o'r farn y byddai'r cynllun yn methu ar sail canlyniadau amgylcheddol o ran gwneud y cynllun yn ystyrlon. Ni fydd pob perth yn darparu'r un budd â'i gilydd, ac felly mae hi'n hanfodol bod y cyngor ar gael i'w roi i ffermwyr. Gwnaed cynnig i gymryd haen oddi ar y cyfraddau talu er mwyn talu'r grwpiau cynghori am eu gwasanaethau.

Cynigiwyd, ar sail beth a ddywedwyd, mai'r pethau hawsaf i'w hariannu yw'r nodweddion llinellog am eu bod yn haws yn weinyddol a bydd llawer o fuddiannau iddynt. Er enghraifft, mae manteision mawr i byllau os cânt eu gosod yn y lleoedd cywir, a dyna pam bod cyngor mor bwysig.

Roedd y grŵp o'r farn bod angen i Lywodraeth Cymru ychwanegu gwerth ac edrych ar beth y telir amdano ar hyn o bryd dan Glastir Uwch. Byddai'n anfantais petai pobl yn ymadael â Glastir Uwch.

Mae angen i hyn fod yn ddull deublyg; efallai gallwn ni roi rhagor o bwyntiau i'r rheiny sy'n gweithio ar y cyd ag eraill, meddai rhywun.

Aeth y grŵp yn ei flaen i drafod y system ar-lein. Roeddent o'r farn, ac wedi cael adborth i ategu hynny, bod ffermwyr yn cael anhawster mawr â'r broses. Mae llawer o bobl allan yno nad ydynt yn hyddysg gyda chyfrifiaduron. Mae cyrff cyfryngol eisoes yn helpu. Byddai'n ddefnyddiol i Lywodraeth Cymru beidio dweud bod y system ar-lein yn hawdd am fod hynny'n creu rhwystredigaeth yn y diwydiant.

Os yw Llywodraeth Cymru am roi cap ar y grant, dylent o leiaf wir ystyried beth ddylai'r figwr hwn fod. Er enghraifft, does dim pwynt gosod cap o £500 os nad yw'n cyflawni unrhyw beth.

Yn olaf, gofynnwyd i'r grŵp roi syniad o'r tair prif eitem cyfalaf yr hoffent eu hariannu gan y grant hwn. Mynegodd y grŵp y canlynol:

- Perthi
- Pyllau/gwlyptiroedd
- Plannu coed
- Pecyn pori
- Waliau ag wyneb carreg
- Coed perllan

Gwnaeth Llywodraeth Cymru hysbysu'r grŵp y bydd rhagor o weithdai yn yr hydref.

# Ecosystemau dŵr croyw – Gweithdy bioamrywiaeth â blaenoriaeth dan Adran 42

### Grŵp Arbenigol Cymru ar Rywogaethau

Cyflwynwyd y gweithdy gan aelodau o Grŵp Arbenigol Partneriaeth Bioamrywiaeth Cymru ar Rywogaethau: Dr Liz Howe (Cyfoeth Naturiol Cymru), Dr Tristan Hatton-Ellis (Cyfoeth Naturiol Cymru), a Hannah Shaw (Freshwater Habitats Trust).

Diben y gweithdy oedd trafod rhestr bresennol Adran 42 o rywogaethau pwysig iawn ar gyfer gwarchod amrywiaeth fiolegol yng Nghymru, a beth yw'r prif bethau i ystyried a gwella os bydd rhestr blaenoriaeth newydd yn cael ei pharatoi ar gyfer Adran 7, er mwyn cynyddu'r siawns y bydd yn cyflawni ei nod/diben.

Mae Adran 7, rhestrau bioamrywiaeth a dyletswydd i gymryd camau i gynnal a gwella bioamrywiaeth, o Fil yr Amgylchedd (disgwylir yng ngwanwyn 2016) yn mynnu bod:

"(1) Rhaid i Weinidogion Cymru baratoi a chyhoeddi rhestr o'r organeddau byw a'r mathau o gynefinoedd sydd, yn eu barn hwy, o'r pwysigrwydd pennaf at ddiben cynnal a gwella bioamrywiaeth mewn perthynas â Chymru.

(2) Cyn cyhoeddi rhestr o dan yr adran hon, rhaid i Weinidogion Cymru ymgynghori â Chorff Adnoddau Naturiol Cymru ('CNC') ynghylch yr organeddau byw a'r mathau o gynefinoedd sydd i'w cynnwys ar y rhestr."

Adran 42 Cynefinoedd a rhywogaethau dŵr croyw oedd y thema – pam? Yn parhau i ddirywio ond o bwysigrwydd uchel i fioamrywiaeth.

Rhoddodd Dr Liz Howe gyflwyniad i'r gweithdy oedd yn ddefnyddiol iawn ac yn llawn gwybodaeth, yn enwedig y cefndir i restr Adran 42 ac Adran 7 Bil yr Amgylchedd.

Y cwestiynau a roddwyd gerbron y grŵp oedd:

1. Beth mae Adran 42 wedi'i wneud i gynefinoedd a rhywogaethau yng Nghymru, yn enwedig rhai dŵr croyw? Beth nad yw Adran 42 wedi'i wneud?

Sut oedd eich profiad chi o weithgarwch/ymwybyddiaeth Adran 42 ar draws yr awdurdodau lleol, Llywodraeth Cymru a chyrff cyhoeddus eraill. Oes unrhyw ffordd o wella ymwybyddiaeth? Oedd y cynlluniau gweithredu yn offeryn defnyddiol ar gyfer llywio camau gweithredu a dulliau ymchwil a monitro mewn cynefinoedd?

2. Ddylwn ni barhau i seilio ein blaenoriaethau ar restr Cynllun Gweithredu'r DU ar Fioamrywiaeth? Oes dal rôl gan hon i chwarae? e.e. adroddiau'r Confensiwn ar Amrywiaeth Fiolegol – a fydd adroddiad arall ar gyfer y DU yn seiliedig ar restrau'r Cynllun Gweithredu ar Fioamrywiaeth?

Oes dull amgenach na chynhyrchu rhestrau o rywogaethau, er enghraifft drwy edrych ar beryglon uniongyrchol a brys i fodolaeth gan ddefnyddio meini prawf rhestr goch ac anwybyddu meini prawf eraill megis dynodiadau eraill (yr UE, Atodlen 5 a.y.b.). Cynrychiolaeth yng Nghymru – fyddai hyn yn gweithio'n well?

Neu, ddylai'r meini prawf a ddewisir gennym ar gyfer dewis a dethol rhywogaethau fod yr un peth ar gyfer yr holl grwpiau tacsonomeg, neu ar gyfer yr holl gynefinoedd p'un y byddont yn trigo yno ai peidio? Ddylwn ni ond dewis rhywogaethau sy'n hawdd eu dynodi, neu rywogaethau eiconaidd/allweddol?

3. Gofynnir inni ddarparu amgylchedd gwydn a bioamrywiol yng Nghymru: beth yw ystyr hynny i chi, a pha weithgareddau y disgwyliwch iddynt fod ar waith ar gyfer cynefinoedd a rhywogaethau dŵr croyw er mwyn cyflawni'r nod hwnnw? A fyddai'n wahanol ar gyfer cynefinoedd eraill a'u rhywogaethau ?

4. Os mai'r canlyniad yw ein bod yn trosglwyddo rhestr bresennol Adran 42 i Adran 7, fyddech chi eisiau gweld unrhyw ddiwygiadau i'r cynefinoedd a rhywogaethau dŵr croyw? Oes bylchau yn y mathau o gynefinoedd a gynrychiolir? A ydynt yn caniatáu i'r rhywogaethau sydd angen camau gweithredu bioamrywiol i gael eu cynnwys?

A roddir cydnabyddiaeth i'r cynefinoedd dŵr croyw gyda'r un manylder â'r lleill?

Ddylwn ni roi mwy o sylw i gysylltedd, cyflwr y cynefin, a chamau gweithredu'r safle?

Beth yw'r cynefinoedd a'r rhywogaethau sy'n cael blaenoriaeth ym myd dŵr croyw?

Gwnaed y pwyntiau canlynol yn y gweithdy:

## Grŵp 1:

Cwestiwn 1.Beth mae Adran 42 wedi'i wneud i gynefinoedd a rhywogaethau yng Nghymru, yn enwedig rhai dŵr croyw? Beth nad yw Adran 42 wedi'i wneud?

Os nad yw rhywogaeth Adran 42 yn hysbys mewn safle, nid oes pŵer i ofyn am arolygon am rywogaethau Adran 42, tra bod cynefinoedd Adran 42 wrth gwrs yn cael eu cydnabod yn amlach a'u hystyried. Fodd bynnag, gyda rhywogaethau sy'n lleihau'n gyflym, megis y gylfinir, gofynnwyd am arolygon mewn perthynas â datblygiadau tyrbinau gwynt, pan fo'r cynefin yn addas ar eu cyfer. Ydy pobl o'r farn bod cynefinoedd yn fwy gwerthfawr o ran bioamrywiaeth? Neu, a fydd cynnal arolwg o rai o rywogaethau mwyaf cyffredin Adran 42 (draenogod, er enghraifft) yn annerbyniol? Yn aml, ni fyddai poblogaeth o rywogaeth Adran 42 ar safle yn cael ei hystyried yn gymwys ar gyfer ystyriaeth berthnasol. Serch hynny, gall cais i gynnal arolwg am rywogaeth Adran 42 gael ei ystyried yn rhesymol lle maent yn arbennig o brin. A all pob awdurdod lleol ddehongli'r rhestr, yn ôl y gofyn, i'w chydweddu ag amodau lleol?

(A yw cynefinoedd a rhywogaethau dŵr croyw wedi gwella ers cyflwyno Adran 42 neu a ydynt yn parhau i leihau?)

Sut roedd eich profiad chi o weithgarwch/ymwybyddiaeth Adran 42 ar draws yr awdurdodau lleol, Llywodraeth Cymru a chyrff cyhoeddus eraill?

Ymddengys fod rhestr Adran 42 ond yn berthnasol i bobl mewn adrannau cynllunio, ac i'w hymwybyddiaeth nhw. Mae ymwybyddiaeth y cyhoedd o Adran 42 (a Chynlluniau Gweithredu ar Fioamrywiaeth) yn sâl.

Mewn rhai amgylchiadau, lle mae'r polisïau'n bodoli, mae Adran 42 wedi ehangu'r rhywogaethau a'r cynefinoedd sy'n cael eu hystyried yn rhesymol mewn achosion datblygu. Nid yw Adran 42 o reidrwydd wedi arwain at warchod a gwella, nac i fonitro yn dilyn datblygiad (ond nid yw deddfwriaeth wedi gwneud hynny chwaith, yn arbennig yn achos datblygiadau gwledig, bach).

Mae rhestr Adran 42 wedi cynyddu ymwybyddiaeth cofnodwyr o bwysigrwydd y rhywogaethau hyn. Mae pryder bod cynefinoedd/mosaigau/rhywogaethau pwysig wedi'u colli am nad ydynt ar y rhestr. Allwn ni gael enghreifftiau o'r rhain?

## Oes unrhyw ffordd o wella ymwybyddiaeth?

Dylai'r holl adrannau gael eu hysbysu ynghylch eu dyletswyddau o ran bioamrywiaeth a rhestrau Adran 42, gan gynnwys penseiri, peirianwyr, timau cynnal tiroedd, cynaliadwyedd, addysg, a.y.b. Dylai hyn fod yn rhan o rôl y Pencampwyr Bioamrywiaeth, ond rhaid iddynt fod yn bobl "arbennig" sydd wir yn deall pam ein bod ni'n ceisio gwarchod ac adfer bioamrywiaeth, a chanddynt y gallu i ysbrydoli awdurdodau lleol.

Cwestiwn 2. Ddylwn ni barhau i seilio ein blaenoriaethau ar restr Cynllun Gweithredu'r DU ar Fioamrywiaeth. Oes dal rôl gan hon i chwarae? e.e. adroddiadau'r Confensiwn ar Amrywiaeth Fiolegol - a fydd adroddiad arall ar gyfer y DU yn seiliedig ar restrau'r Cynllun Gweithredu ar Fioamrywiaeth?

Oes dull amgenach na chynhyrchu rhestrau o rywogaethau, er enghraifft drwy edrych ar beryglon uniongyrchol a brys i fodolaeth gan ddefnyddio meini prawf rhestr goch ac anwybyddu meini prawf eraill megis dynodiadau eraill (yr UE, Atodlen 5 a.y.b.)? Cynrychiolaeth yng Nghymru – fyddai hyn yn gweithio'n well?

Gallwn gael cynefinoedd ecosystem/mosäig ynghyd â rhywogaethau/cynefinoedd allweddol gyda ffactorau disgrifiadol. Gallai'r rhain fwydo'n uniongyrchol i mewn i gynlluniau gweithredu lleol ar fioamrywiaeth, cynllunio a gweithrediadau a.y.b. Dylai rhywogaethau sydd eisoes yn cael eu gwarchod gan y gyfraith gael eu tynnu ymaith. Dylai fod mwy o gysondeb rhwng dosbarthiadau rhywogaeth (ydy hyn yn golygu cyfanswm niferoedd, niferoedd cymharol?). Dylid cydnabod bod cynefinoedd yn cael eu gwarchod oherwydd y rhywogaethau maen nhw'n eu cynnal (neu y gallant eu cynnal). Gallai gynnwys rhagor o gasgliadau o rywogaethau – fyddai hyn yn dynodi bod statws y cynefin yn dod dan Adran 42? Mae'r rhestr yn rhy hir!

## Grŵp 2:

Cwestiwn 1. Beth mae Adran 42 wedi'i wneud i gynefinoedd a rhywogaethau yng Nghymru, yn enwedig rhai dŵr croyw? Beth nad yw Adran 42 wedi'i wneud? Sut roedd eich profiad chi o weithgarwch/ymwybyddiaeth Adran 42 ar draws yr awdurdodau lleol, Llywodraeth Cymru a chyrff cyhoeddus eraill?

Nid yw pencampwyr awdurdodau lleol wedi bod yn effeithiol iawn ar y cyfan.

Mae'r canllawiau wedi bod yn ddefnyddiol iawn ar gyfer rhywogaethau a chynefinoedd, ond nid yw'r Pencampwyr Bioamrywiaeth wir wedi hyrwyddo bioamrywiaeth yn eu siroedd.

Roedd y canllawiau a gynhyrchwyd gan Lywodraeth Cymru yn ddefnyddiol iawn er mwyn esbonio pwysigrwydd rhywogaethau a chynefinoedd a'r dyletswyddau dan Ddeddf yr Amgylchedd Naturiol a Chymunedau Gwledig, ond ni wnaed gwaith dilynol ac ni wiriwyd ac ni orfodwyd – mae angen ffon fwy o faint. Gobeithio bydd Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol yn datrys hyn.

Oedd y cynlluniau gweithredu yn offeryn defnyddiol ar gyfer llywio camau gweithredu a dulliau ymchwil a monitro mewn cynefinoedd?

Oedd! Os ydych yn gorff sy'n dibynnu ar grantiau, am ei fod yn cynnig rhywbeth i gynnig yn ei erbyn.

Mae Cynlluniau Gweithredu Bioamrywiaeth wedi bod yn offer defnyddiol iawn wrth helpu i gael cyllid ar gyfer prosiectau sy'n ymchwilio a chynnal gwaith o greu a rheoli cynefinoedd ar gyfer rhywogaethau Adran 42 – rydym bellach yn gwybod llawer mwy am statws rhywogaethau Adran 42. Mae Cynlluniau Gweithredu ar Fioamrywiaeth hefyd yn ddefnyddiol ar gyfer dylanwadu ar amodau cynllunio, lle y bo'n briodol.

Cwestiwn 2. Ddylwn ni barhau i seilio ein blaenoriaethau ar restr Cynllun Gweithredu'r DU ar Fioamrywiaeth? Oes dal rôl gan hon i chwarae? e.e. adroddiau'r Confensiwn ar Amrywiaeth Fiolegol – a fydd adroddiad arall ar gyfer y DU yn seiliedig ar restrau'r Cynllun Gweithredu ar Fioamrywiaeth?

Oes dull amgenach na chynhyrchu rhestrau o rywogaethau, er enghraifft drwy edrych ar beryglon uniongyrchol a brys i fodolaeth gan ddefnyddio meini prawf rhestr goch ac anwybyddu meini prawf eraill megis dynodiadau eraill (yr UE, Atodlen 5 a.y.b.)? Cynrychiolaeth yng Nghymru – fyddai hyn yn gweithio'n well?

Byddai dull sydd wedi'i gategoreiddio, ac iddo haenau, yn gallu helpu, gan edrych ar rywogaethau prin nad ydynt mewn perygl. Byddai'n ddefnyddiol cael camau gweithredu wedi'u blaenoriaethu ar y rhestr. Nid yw Cynllun Gweithredu'r DU ar Fioamrywiaeth bellach yn berthnasol, ac nid yw'n cael ei ddefnyddio ar gyfer dangosyddion y DU, er enghraifft. Dylid dechrau ag Adran 42 y tro nesaf. Dylid edrych ar fathau eraill o sbardunau hefyd, nid prinder yn unig – e.e. a oes angen ymchwil arno? Ydyn ni'n gwybod pa fath o reolaeth mae rhywogaeth yn ei hoffi? Ydyn ni'n gwybod ai ecoleg ydyw? A ellir cael rhestr flaenoriaeth ar gyfer ymchwil? Efallai y gellid cael meini prawf gwahanol ar gyfer grwpiau tacsonomeg gwahanol a fyddai'n perthyn yn fwy i anghenion/cylchoedd bywyd ecolegol. Rhoi ystyriaeth i anghenion a chamau gweithredu sydd angen eu hystyried. Gallai helpu hefyd gyda dealltwriaethau amrywiol ynglŷn â rhywogaethau.

Cynnig bod Adran 42 yn cael ei throsglwyddo i Adran 7 yn uniongyrchol, i'w defnyddio'n syth, gan ddarparu gwarchodaeth barhaol, a'i hadolygu'n hwyrach.

## Grŵp 3:

Cwestiwn 4. Os mai'r canlyniad yw ein bod yn trosglwyddo rhestr bresennol Adran 42 i Adran 7, fyddech chi eisiau gweld unrhyw ddiwygiadau i'r cynefinoedd a rhywogaethau dŵr croyw? Oes bylchau yn y mathau o gynefinoedd a gynrychiolir? A ydynt yn caniatáu i'r rhywogaethau sydd angen camau gweithredu bioamrywiol i gael eu cynnwys?

Dylwn edrych ar ychwanegu rhywogaethau eraill at y rhestr, a thynnu ymaith rhywogaethau, gyda'r rhesymau dros hynny. Hynny yw, pam bod rhywogaethau ar y rhestr? Mae angen eu cyfiawnhau'n gymwys. Oes angen i'r rhestr fod mor hir?

Dylwn ni adolygu statws presennol a bygythiadau i rywogaethau rhestr Adran 42, a gweld a ellir tynnu rhywbeth ymaith neu ychwanegu rhywogaethau sy'n lleihau at y rhestr. Gall strategaeth Buglife ar gyfer infertebrata fod o gymorth wrth lunio'r rhestr.

Mae cynefin yn bwysicach nag unrhyw rywogaeth unigol, ond gochelwn rhag dull cyffredinol o reoli am fod gan lawer o rywogaethau prin anghenion penodol. Dylid cyfiawnhau pam bod pob rhywogaeth wedi ei rhestru, beth sy'n berygl iddi ar hyn o bryd, a gweithredu meini prawf lleol ar gyfer Cymru.

Dylid gweithredu meini prawf eang ar gyfer dewis a dethol, a dull aml-haen. Er enghraifft, gallai planhigion gael dwy restr: un ar gyfer rhywogaethau prin ac un ar gyfer rhywogaethau cyffredin sy'n lleihau, e.e. mae bwtsias y gog yn gyffredin ac yn eang ond mae'n lleihau o ran niferoedd. Mae diffyg cyffredinol o ran data ar helaethrwydd a dosbarthiad rhai grwpiau o rywogaethau, gan gynnwys rhywogaethau sy'n gyffredin ac i'w gweld yn helaeth.

Ddylwn ni roi mwy o sylw i gysylltedd, cyflwr y cynefin, a chamau gweithredu'r safle?

Mae angen cysylltedd mewn rhai achosion er mwyn cynyddu gwytnwch, ond nid ym mhob achos. Dylid rhoi ystyriaeth lawn i amodau presennol cynefinoedd a'r rhywogaethau a gynhelir ganddynt, cyn cynyddu cysylltedd. Er y bydd cysylltedd o les yn y rhan fwyaf o achosion, mae enghreifftiau lle gall arwain at golli bioamrywiaeth, e.e. cimychiaid afon crafanc wen a chimychiaid afon arwyddol, a hefyd gwiwerod coch a llwyd. Gall llawer o drychfilod dŵr croyw hedfan a choloneiddio safleoedd cyfagos. Gall rhai rhywogaethau gael eu lledaenu gan adar, ac felly pennir eu gwasgariad daearyddol gan hyd treuliad (hyd Cymru gyfan yn achos adar mawr y dŵr).